


# Hunanasesiad Corfforaethol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



2023/24

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend
County Borough Council

# Diben yr adroddiad hwn

Ym mis Ionawr 2021, fe basiodd Senedd Cymru ddeddf newydd a newidiodd y ffordd y mae cynghorau'n gweithio. Bob blwyddyn, rhaid i ni gyhoeddi adroddiad hunanasesu. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 6 Ebrill 2023 a 5 Ebrill 2024.

Mae arnom eisiau i'r adroddiad sicrhau Llywodraeth Cymru ein bod ni'n perfformio'n dda. Mae arnom hefyd eisiau iddo ddweud wrthynt ein bod yn defnyddio ein harian a'n hadnoddau'n briodol ac yn gwneud penderfyniadau mewn ffordd synhwyrol, agored. Yn bwysicaf oll, rhaid i'r adroddiad ddweud wrth drigolion a busnesau lleol a'r holl randdeiliaid sut yr ydym yn gwneud.

Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ganllawiau a oedd yn dweud wrthym sut i ddatblygu ein hunanasesiad a pha dystiolaeth i'w defnyddio i'n barnu ein hunain.





2023/24

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

Hunanasesiad Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Byd newidiol llywodraeth leol

Mae'r byd wedi newid gryn dipyn ers y pandemig, ac mae'n cael effaith fawr ar y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. Mae'r argyfwng costau byw'n gwneud pethau'n anodd i chi fel trigolion a busnesau, ac mae'n ei gwneud yn anos i'r Cyngor ddygymod hefyd. Dyma rai o'r heriau y mae eich Cyngor yn eu hwynebu –

- **Costau ynni cynyddol ar gyfer canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden ac ysgolion**
- **Costau tanwydd cynyddol ar gyfer cludiant i'r ysgol, gofalwyr cartref a cherbydau ailgylchu**
- **Newidiadau i gost ac argaeledd nwyddau fel bwyd ar gyfer cartrefi preswyl a deunyddiau adeiladu ar gyfer ysgolion newydd**
- **Codiadau cyflog ar gyfer ein staff sy'n darparu gwasanaethau anhepgor**
- **Y Llywodraeth yn gofyn i ni redeg rhagor o wasanaethau e.e. dosbarthu taliadau costau byw**
- **Effeithiau ar drigolion sy'n ychwanegu galw at wasanaethau, gan gynnwys mwy o ddigartrefedd ac atgyfeiriadau diogelu**
- **Cyllid ar gyfer y Cyngor yn peidio â chynyddu yn ôl yr un gyfradd â phrisiau.**

# Ein cynnydd yn erbyn y meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

Yn ein Hunanasesiad Blynyddol 2022/23 fe wnaethom adnabod cyfres o feysydd yr oedd angen gwelliannau penodol ynddynt yn y flwyddyn 2023/24. Isod ceir diweddariad ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud yn y meysydd hyn. Darperir rhagor o fanylion am gamau gweithredu hyd yma, a'r rhai sy'n dal yn yr arfaeth, ym mhob adran fanwl yn yr adroddiad hwn.




2023/24

# Blaenoriaeth Un

1

- Gan ddefnyddio'r Cynllun Gwella Ôl-16 (PIP), rydym wedi datblygu dull cyson o ddarparu addysg ôl-16 ar draws ein 9 ysgol uwchradd, gyda dull hybrid ar gyfer pynciau Safon Uwch i wella'r dewis o bynciau.
- Wedi datblygu cynllun gweithredu gydag ysgolion a grŵp gorchwyl a gorffen ar waharddiadau i fynd i'r afael â'r defnydd o waharddiadau am gyfnod penodol a gwaharddiadau parhaol.
- Wedi datblygu tudalennau gwe Cyfrwng Cymraeg ac wedi gwella trefniadau cyfathrebu i hyrwyddo addysg Gymraeg.
- Wedi cynyddu niferoedd cofrestru Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) trwy hyrwyddo'r gwasanaeth yn fwy, mwy o sesiynau wyneb-yn-wyneb, gan gynnwys cyrsiau achrededig, sesiynau blasu unigol a sesiynau galw heibio digidol. Cyflwynwyd 53 o sesiynau wyneb-yn-wyneb i gymunedau.
- Mae Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr wedi darparu 6 digwyddiad mawr, a fynychwyd gan gyfanswm o 293 o gynrychiolwyr o'r gymuned fusnes.
- Rydym yn caffael System Rheoli Gwaith Integredig (IWMS) i wella cyflymder cyfarwyddiadau gwaith a data mewn amser real ar gydymffurfio statudol. Bydd hon yn ei lle yn 2025, yn hwyrach na'r disgwyl am bod ein gofynion wedi newid.



# Blaenoriaeth Dau


2

- Roeddem yn gobeithio y gallem gynyddu'r ddarpariaeth addysg sylfaenol i oedolion 50% yn 2023/24. Ond fe wnaed toriadau i'r gwasanaeth dysgu oedolion yn y gymuned fel rhan o arbedion strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor, felly ni chyflawnwyd y cynnig hwn.
- Rydym wedi bod yn gweithio i ddarparu gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Metws ac yn Nyffryn Ogwr erbyn mis Medi 2023, ond mae oedi cyn cael dogfennaeth y prydlesi wedi arafu'r cynnydd. Mae gwaith yn parhau i mewn i 2024/25.
- Rydym ar y trywydd iawn gyda'r holl gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- Wedi gweithio gyda chydlynwyr ADY a phenaethiaid ysgolion i roi hyfforddiant ar ddiwygio ADY.
- Wedi datblygu gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Metws a Dyffryn Ogwr, er bod graddfeydd amser wedi llithro i fis Tachwedd 2024 ar gyfer agor.
- Wedi sicrhau bod prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd ar gael i ddisgyblion meithrin, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.
- Wedi cwblhau'r broses o uno'r partneriaethau diogelwch cymunedol.
- Wedi datblygu a chyhoeddi strategaeth digartrefedd newydd.
- Wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau eraill ar ein dull o gartrefu ffoaduriaid (gan gynnwys ffoaduriaid o Wcráin)
- Wedi gwella ein gwaith gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i wella dewisiadau tai.
- Wedi gwella dysgu a datblygu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso.
- Wedi gwreiddio'r model Arwyddion Diogelwch mewn gofal cymdeithasol.
- Wedi lansio ein model ymarfer sy'n Seiliedig ar Gryfderau ac sy'n Canolbwyntio ar Ddeilliannau ar gyfer gwaith cymdeithasol.
- Wedi agor ein gwasanaeth gofal preswyl newydd i blant a dod â chymorth therapiwtig gwell i mewn i'n holl wasanaethau gofal preswyl a maethu mewnol.
- Wedi cyhoeddi ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol newydd.
- Rydym wedi gweithio gyda'r GIG ar wasanaethau osgoi derbyn i'r ysbyty a rhyddhau o'r ysbyty i leihau oedi cyn bod pobl yn cael gofal. Bellach mae modd i wasanaethau cymunedol archebu gwelyau yn Uned Ailalluogi Bryn y Cae i osgoi derbyniadau i'r ysbyty. Mae gennym fodel gweithredu newydd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn yr ysbyty a fydd yn cefnogi prosesau rhyddhau mwy amserol.
- Rydym wedi datblygu ein gwasanaethau cymunedol i gynyddu ein gwasanaethau ailalluogi sydd wedi helpu pobl lle y bo'n briodol i gadw neu adennill sgiliau byw'n annibynnol.
- Wedi cydgynhyrchu gwasanaeth llesiant gofalwyr newydd Pen-y-bont ar Ogwr gyda gofalwyr di-dâl.
- Wedi cefnogi 237 o bobl trwy gydlynwyr cymunedol, 111 trwy gyfeirwyr cymunedol.
- Wedi datblygu rhaglen trawsnewid anableddau dysgu.
- Wedi codi ymwybyddiaeth o Ddyletswydd Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr trwy gylchlythyrau.
- Wedi cwblhau 7 proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol.



# Blaenoriaeth Tri

- Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy naw mlynedd wedi cael ei sefydlu sy'n cynnwys prosiectau i ddarparu pum ysgol newydd.
- Wedi gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli perfformiad.
- Wedi gwreiddio ein Cynllun Corfforaethol, Cynllun Cyflawni a Fframwaith Perfformiad newydd.
- Wedi gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli ein hasedau ac wedi lleihau ein hôl-groniad o waith cynnal a chadw.
- Wedi gwella Cydymffurfiaeth Statudol Adeiladau, gyda Chydymffurfiaeth o ran y 5 Mawr bellach ar 94%.
- Wedi gwreiddio ein dull Rheoli Risgiau Corfforaethol diweddaredig.
- Wedi datblygu opsiynau ar gyfer arbedion tymor hwy ac aml-flwyddyn.
- Wedi adolygu a diweddaru polisi gweithio hybrid y Cyngor.
- Wedi gwneud cynnydd o ran rhesymoli adeiladau gyda thimau'n cael eu trosglwyddo i'r Swyddfeydd Dinesig. Wedyn bydd Cwrt y Cigfrain ar gael i'w werthu neu ei roi ar brydles.
- Wedi adolygu nifer o brotocolau Adnoddau Dynol gan gynnwys ar golli swyddi ac adleoli.
- Wedi gwneud cynnydd da ar y cynllun gweithredu ar gyfer cyfathrebu yn dilyn adolygiad cymheiriaid LGA, yn dilyn anawsterau recriwtio i rôl rheolwr grŵp. Rydym yn datblygu naratif corfforaethol, wedi cytuno ar brotocol cyfryngau newydd, ac yn datblygu proses i ailstrwythuro'r tîm.
- Rydym wedi bod yn gweithio gyda CTEF i symud holl ddata pridiannau tir awdurdodau lleol i gofrestr ganolog i symleiddio'r broses prynu cartref. Roedd gwaith yn 2023/24 yn cynnwys echdynnu data o systemau digidol cyfredol, paratoi data, darparu diweddariadau i'r gofrestr a datrys unrhyw ymholiadau. Mae problemau echdynnu data wedi achosi oedi ond bydd y prosiect yn mynd yn fyw yn gynnar yn 2025.
- Dyfarnwyd y Fframwaith Bwyd Rhanbarthol (a arweinir gan Gyngor Caerffili) gyda dyddiad cychwyn o Ebrill 2024, ychydig yn hwyrach na'r dyddiad arfaethedig, sef mis Rhagfyr.
- Wedi gosod 59 yn rhagor o socedi gwefru cerbydau trydan.
- Mae angen i ni ddatblygu Cynllun Pontio Fflyd Corfforaethol o hyd i gyflymu'r broses o newid i gerbydau allyriadau isel iawn. Bydd angen iddo adlewyrchu'r newid yn amgylchiadau ariannol y cyngor.




# Sut y mae'r Cyngor yn perfformio yn 2023/24?

Bob 5 mlynedd mae'r Cyngor yn cyhoeddi Cynllun Corfforaethol newydd. Cyhoeddwyd Cynllun Corfforaethol newydd ym mis Ebrill 2023 i gwmpasu cyfnod o 5 mlynedd. Mae'n disgrifio blaenoriaethau'r Cyngor, pam eu bod yn bwysig a sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur. Mae'r blaenoriaethau, neu'r amcanion llesiant, yn dangos ein hymrwymiadau i ddinasyddion a'n cyfraniad i saith nod llesiant Cymru:

## Amcanion Llesiant eich Cyngor

| Nod Llesiant Cenedlaethol | Diogelu ein rhai mwyaf agored i niwed | Gwaith teg, swyddi medrus a threfi ffyniannus | Creu cymunedau ffyniannus yn y Cymoedd | Helpu pobl i wireddu eu potensial | Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur | Gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed a'u cysylltu | Cynorthwyo pobl i fod yn iach ac yn hapus |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymru gydnerth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymru iachach | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Cymru o gymunedau cydlynus | ✓ | | ✓ | | | ✓ | |
| Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |



Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan ddatblygom ni'r cynllun corfforaethol hwn, fe feddyliom ni'n galed am sut y gallem weithio'n wahanol i ymateb i faterion byrdymor a hirdymor, fel yr argyfwng ariannol, gan hefyd ddiogelu ein hamgylchedd naturiol a helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial ar gyfer y tymor hir. Mae gennym broses ar gyfer mesur sut yr ydym yn gwneud ar y blaenoriaethau hyn. Rydym yn defnyddio:

- dangosyddion perfformiad,
- tystiolaeth ar gyflawni ein prosiectau,
- adborth gan drigolion, busnesau a phartneriaid, a
- barn ein rheoleiddwyr ac archwilwyr.

Mae pob rhan o'r Cyngor yn dod â'r wybodaeth hon ynghyd ac yn ei chyflwyno i gynghorwyr sy'n edrych ar y data, yn ei wirio ac yn gofyn cwestiynau. Fe wnaed hyn ar gyfer y flwyddyn 2023-24 ym mis Mehefin 2024. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ffurfio barn gan ddefnyddio'r raddfa hon:

## Beth mae'r Statws hwn yn ei olygu?

| | Perfformiad ar y cyfan / hunanasesiad | Ymrwymiadau, prosiectau neu Gynlluniau gwella | Dangosyddion Perfformiad |
|---|---|---|---|
| **CYFLAWN** | Ddim yn berthnasol | Prosiect wedi'i gwblhau | Ddim yn berthnasol |
| **RHAGOROL** | Perfformiad ac ymarfer cryf iawn, parhaus | Fel y cynlluniwyd - o fewn amserlenni, o fewn y gyllideb, yn cyflawni canlyniadau | Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed ac mae perfformiad wedi gwella / ar ei uchaf |
| **DA** | Nodweddion cryf; gall fod angen gwella mân agweddau | Mân faterion. Mae un o'r canlynol yn berthnasol - mae terfynau amser yn dangos llithriant, mae'r prosiect yn mynd y tu hwnt i'r gyllideb, neu mae'r sgôr risg yn cynyddu | Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed |
| **DIGONOL** | Angen gwelliant. Mae'r cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond mae angen gwella agweddau pwysig | Materion - Mae mwy nag un o'r canlynol yn berthnasol - mae terfynau amser yn dangos llithriant, mae'r prosiect yn mynd y tu hwnt i'r gyllideb, neu mae'r sgôr risg yn cynyddu | Oddi ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed (o fewn 10% i'r targed) |
| **ANFODDHAOL** | Angen gwelliant ar frys. Mae'r gwendidau'n gorbwyso cryfderau | Materion o bwys - wedi mynd y tu hwnt i'r terfynau amser, prosiect dros y gyllideb, sgôr risg yn argyfyngus neu waeth | Oddi ar y targed (targed wedi'i fethu o 10%+) |

# Trosolwg o Berfformiad


I ategu'r Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd newydd, fe ddatblygom ni gynllun cyflawni 1 flwyddyn ar gyfer 2023/24. Mae'r cynllun yn cynnwys:

- 101 o ymrwymiadau (prosiectau) y bydd y Cyngor yn eu cyflawni i'n helpu i gyrraedd ein nodau, er enghraifft, agor canolfan ailgylchu newydd yn y Pîl.
- rhestr o 99 o ddangosyddion perfformiad i fesur ein gweithgareddau o ddydd i ddydd, er enghraifft, casglu ac ailgylchu gwastraff eich cartref.


Mae pob un o'r rhain wedi cael sgôr glas, coch, ambr neu wyrdd i ddangos i chi a ydynt wedi cael eu cwblhau, ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed ynteu a ydym yn ei chael hi'n anodd eu cyflawni, ac mae'r ddau graff isod yn crynhoi'r rhain.

Ochr yn ochr â'r hunan-asesiad, rydym wedi cyhoeddi dogfen fer ar wahân am berfformiad sy'n manylu ar ein cynnydd yn erbyn pob Dangosydd Perfformiad ac ymrwymiad.

## Graff 1 Sut ydym yn gwneud ar ein hymrwymiadau / prosiectau





## Graff 2 Sut ydym yn gwneud ar ein dangosyddion perfformiad



# Amcan Llesiant 1

| Amcan Llesiant 1 | SGÔR |
|---|---|
| **Bwrdeistref Sirol lle rydym yn diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed** | **DA** |




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi rhagor o fanylion i chi ynglŷn â sut yr ydym yn gwneud ar bob nod dan yr amcan llesiant hwn

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Darparu gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion o safon uchel a gwasanaethau cymorth cynnar i bobl y mae eu hangen arnynt** | **DA** | Bu rhai llwyddiannau arwyddocaol yn y gwasanaethau cymdeithasol eleni. Rydym yn gwneud cynnydd da yn erbyn y cynllun strategol 3 blynedd ar gyfer gwasanaethau plant, gan gynnwys datblygu fframwaith ymgysylltu, cynllun y gweithlu, strategaeth gomisiynu, y model ymarfer arwyddion diogelwch ar gyfer gwaith cymdeithasol, bwrdd rhianta corfforaethol a gwelliannau i ddata a gwybodaeth. Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi lleihau'n gyson ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed. Rydym wedi cyflawni gostyngiad diogel yn nifer y plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae 100% o'r gofalwyr (yn y gwasanaethau plant) wedi cael cynnig asesiad gofalwr. Bu gwelliannau yn amseroldeb ymweliadau â phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.<br><br>Rydym yn gwneud cynnydd da o ran datblygu cynllun 3 blynedd ar gyfer gofal a chymorth cynaliadwy i oedolion. Rydym yn gwreiddio'r model ymarfer newydd. Bu nifer o sesiynau hyfforddi ar ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Mae 377 o becynnau ailalluogi wedi cael eu cwblhau, gan gynorthwyo pobl i gadw neu adennill eu hannibyniaeth, er bod y ganran lle lleihawyd yr angen am gymorth wedi gwaethygu ychydig. Mae cydlynwyr cymunedol wedi cynorthwyo 395 o bobl ac fe wnaeth cyfeirwyr cymunedol gynorthwyo 517 o bobl i ddatblygu hyder a'u cysylltu â chymorth cymunedol.<br><br>Mae'r gwasanaeth llesiant gofalwyr newydd yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, ac yn cyfeirio at wasanaethau cymorth yn ogystal â chymorth arbenigol i ofalwyr ifainc.<br><br>Mae niferoedd y bobl sy'n cael mynediad at eiriolaeth annibynnol mewn gofal cymdeithasol i blant ac oedolion ymhell islaw'r targed ac rydym yn gweithio i hyrwyddo a chofnodi ymyriadau'n well.<br><br>Rydym wedi cwblhau mwy o gynlluniau cymorth tîm o amgylch y teulu ac mae canran y cynlluniau sy'n cau â deilliant llwyddiannus wedi cynyddu i 83%. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Helpu pobl mewn tlodi i gael y cymorth y mae ei angen arnynt neu'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo** | **RHAGOROL** | Rydym yn cefnogi rhai pobl â chymorth ariannol uniongyrchol, er enghraifft trwy'r Cynllun Cymorth Biliau Ynni a ddaeth i ben yn gynharach yn y flwyddyn, ac y mae pob un o'i daliadau wedi cael eu gwneud. Mae ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn effeithlon, a ninnau'n ymdrin â cheisiadau'n brydlon. Rydym hefyd yn rhoi cyngor a chymorth trwy ein gwasanaeth cyngor a chynhorthwy ariannol (FASS). Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyngor a chymorth i reoli neu leihau dyledion aelwydydd i 93% o'r bobl sydd wedi cysylltu ag ef. Mae hefyd yn helpu pobl i gael mynediad at fudd-daliadau a lwfansau, ac fe gafodd 92% o'r bobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth fwy o incwm trwy hawliadau am fudd-daliadau a lwfansau ychwanegol / uwch. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Cyngor Ar Bopeth (CAB) sydd wedi datblygu gwasanaeth allgymorth a galw heibio, gan godi ymwybyddiaeth o'r cymorth a gynigir. |
| **Cynorthwyo pobl sy'n wynebu digartrefedd i ddod o hyd i le i fyw** | **ANFODDHAOL** | Rydym wedi datblygu strategaeth digartrefedd newydd, sy'n amlinellu ein blaenoriaethau, ein hamcanion a'r hyn y byddwn yn ei wneud gyda phartneriaid dros y 4 blynedd nesaf i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae newidiadau i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru'n golygu bod argyfwng o ran y cyflenwad o dai a'r galw am dai ledled Cymru. Mae'r galw'n uchel iawn am wasanaethau digartrefedd ac mae ein cyflenwad o lety (yn enwedig mathau penodol o lety fel cartrefi mawr a chartrefi hygyrch) yn isel iawn. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu helpu pobl mor gyflym ag y dylem, a'n bod yn dibynnu ar lety dros dro yn fwy nag yr hoffem. |
| **Cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gael y gorau o'u haddysg** | **DIGONOL** | Mae ymarfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi'i wreiddio ym mholisïau dysgu ac addysgu'r holl ysgolion. Mae penaethiaid a chydlynwyr ADY (CADY) yn yr holl ysgolion wedi cael hyfforddiant manwl ar ddiwygio ADY.<br><br>Mae cymorth a hyfforddiant ar gael gan Gonsortiwm Canol De Cymru, gyda deunyddiau cymorth ar Hwb. Mae hyfforddiant a gwybodaeth yn helpu i wneud yn siŵr bod cymorth ar gael i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Ond mae toriadau sylweddol i'r cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau, yn enwedig o ran rheoli ymddygiad heriol gan ddisgyblion, wedi effeithio ar lefel y cymorth sydd ar gael. Mae hyn wedi arwain at restrau aros sylweddol ar gyfer darpariaeth arbenigol ym mhob ardal. Bu cynnydd sylweddol mewn ceisiadau am gymorth a lleoliadau arbenigol o ganlyniad i waharddiadau a heriau ymddygiadol mewn lleoliadau prif ffrwd.<br><br>Mae ar leoliadau'r blynyddoedd cynnar angen lefel uwch o gymorth ar gyfer plant ag anghenion meddygol mwyfwy cymhleth. Yn yr un modd, ceir pwysau ar argaeledd cludiant arbenigol rhwng y cartref a'r ysgol i ddiwallu anghenion dysgwyr. |



| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Diogelu ac amddiffyn pobl sydd mewn perygl o niwed** | DA | Mae gennym fwrdd diogelu corfforaethol rheolaidd. Cafodd ein Hadroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol ei gymeradwyo ym mis Ionawr.<br>Mae bron pob penderfyniad ynglŷn ag atgyfeiriadau diogelu plant yn cael eu gwneud o fewn y targed o 24 awr. Mae 78% o'r ymchwiliadau amddiffyn plant yn cael eu cwblhau o fewn y graddfeydd amser gofynnol.<br>Mae'r amser aros cyfartalog ar restr aros y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi lleihau i 16 diwrnod a ninnau bellach wedi cael gwared ar yr ôl-groniad ar y rhestr aros. Mae canran yr ymchwiliadau diogelu oedolion sy'n cael ymateb cychwynnol o fewn 7 niwrnod gwaith ychydig islaw'r targed.<br>Nid yw'r holl staff yn defnyddio'r modiwl e-ddysgu diogelu, ond rydym yn newid y system i gydnabod dysgu blaenorol. |
| **Helpu pobl i fyw'n ddiogel gartref trwy newidiadau i'w cartrefi** | ANFODDHAOL | Rydym yn dal wrthi'n clirio ôl-groniad o grantiau cyfleusterau i'r anabl hanesyddol, felly mae'r amseroedd aros yn dal i fod yn hir. Ond mae cyfanswm y gwaith a gwblhawyd yn uchel, rydym wedi gwario ein cyllideb i gyd, wedi symleiddio'r broses ar gyfer ymgeisio am Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac wedi gwella trefniadau talu i gontractwyr a rheoli'r gyllideb. Bydd Gweithiwr Achosion newydd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn helpu i gydlynu'r cynnydd a gwella cyfathrebu gyda'r ymgeisydd. Yn awr rydym yn disgwyl i amseroedd aros ddechrau lleihau. Roedd yr holl drigolion a gafodd wasanaeth yn fodlon ar yr addasiadau a wnaed i'w cartrefi ac yn teimlo eu bod wedi eu helpu i aros yn eu cartref eu hunain yn annibynnol ac yn ddiogel. |
| **Cynorthwyo partneriaid i gadw cymunedau'n ddiogel** | DIGONOL | Mae cyllid strydoedd diogelach wedi cael ei ddefnyddio i osod camerâu teledu cylch cyfyng sefydlog newydd, camerâu teledu cylch cyfyng newydd y gellir eu hadleoli ac arwyddion newydd, i atal ymddygiad gwael, darparu tystiolaeth a thawelu meddwl cymunedau. Mae system a gweithredwyr teledu cylch cyfyng y Cyngor wedi hysbysu Heddlu De Cymru ynghylch 944 o ddigwyddiadau i'w helpu i ymdrin â digwyddiadau a chadw'r cyhoedd yn ddiogel.<br>Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i adnabod plant y mae arnynt angen cymorth i leihau ymddygiad troseddol mewn panel atal amlasiantaeth. Mae offeryn asesu newydd ar gyfer atal wedi cael ei greu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'n helpu i ddeall anghenion plant sy'n wynebu risg o ddod yn rhan o wasanaethau cyfiawnder troseddol.<br>Mae dosbarthiadau hunanamddiffyn i fenywod wedi cael eu darparu ar gyfer unigolion ac Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol. Mae oddeutu 75% o staff y Cyngor wedi cwblhau hyfforddiant Trais Yn Erbyn Menywod, ond mae hyn islaw'r targed. |



# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Ailstrwythuro'r gwasanaeth cymorth i deuluoedd
- Bydd y gwasanaeth atal a llesiant yn gweithio gyda 380 o ofalwyr ifainc ychwanegol
- Cyflwyno sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' ac asesiadau gofalwyr cymesur
- Datblygu grŵp rhwydwaith gofalwyr ifainc
- Adolygu cynllun strategol 3 blynedd y gwasanaethau plant a chyflawni amcanion blwyddyn 2
- Cwblhau a gweithredu'r cynllun strategol 3 blynedd ar gyfer y gwasanaethau oedolion
- Datblygu gweithgorau ar y model gweithredu ar gyfer gwasanaethau plant yn y dyfodol
- Ehangu hyfforddiant ar gyfer ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau i staff gofal cymdeithasol rheng-flaen.
- Gweithio gyda'r gwasanaeth caffael corfforaethol i gyflawni'r camau gweithredu yn y cynlluniau comisiynu.
- Cyflawni'r cynllun gweithredu o strategaeth y rhaglen cymorth tai.
- Cynnal hunanwerthusiadau gan gyfarwyddiaethau o gymwyseddau diogelu.
- Hyfforddiant arwyddion diogelwch/diogelu a hyfforddiant diogelu ychwanegol ar gyfer llywodraethwyr ysgolion.
- Adolygu modiwlau e-ddysgu gorfodol ar gyfer staff.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu model ymarfer rhanbarthol ar gyfer diogelu a chamfanteisio
- Lleihau'r ôl-groniad o grantiau cyfleusterau i'r anabl hanesyddol


## Astudiaeth achos
## Gwasanaeth Cyngor a Chynhorthwy Ariannol (FASS)

Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu pobl sy'n byw mewn tlodi, neu sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi, gyda rheoli eu harian, cyllidebu, cyngor ar ddyledion, hawlio budd-daliadau a chynyddu eu hincwm i'r eithaf. Mewn partneriaeth â'r ganolfan Cyngor ar Bopeth, rydym wedi cefnogi 580 o bobl, trwy gymorth un-i-un, allgymorth a gwasanaeth galw heibio. Cafodd 93% o'r bobl a gysylltodd â'r gwasanaethau gymorth i reoli neu leihau dyled yr aelwyd ac fe gafodd 92% o bobl incwm uwch trwy hawliadau am fudd-daliadau a lwfansau ychwanegol neu uwch. Cynyddwyd y gwasanaeth galw heibio o un diwrnod i ddau ddiwrnod yr wythnos yn y gymuned, ar gyfer pobl sy'n profi amgylchiadau heriol gyda dyled, ar ôl y Nadolig.



# Amcan Llesiant 2


| Amcan Llesiant 2 | SGÔR |
|---|---|
| **Bwrdeistref Sirol gyda gwaith teg, swyddi medrus o ansawdd uchel a threfi ffyniannus** | **DA** |




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi rhagor o fanylion i chi ynglŷn â sut yr ydym yn gwneud ar bob nod dan yr amcan llesiant hwn.

| Nod | CAMG | Perfformiad eleni |
|---|---|---|
| **Helpu ein preswylwyr i gael y sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer gwaith** | DA | Mae Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi cymorth i bobl ddi-waith, a'r rhai sydd mewn gwaith, ond sy'n cael trafferth gyda sgiliau isel neu dlodi mewn gwaith. Eleni, fe wnaeth 366 o bobl (sy'n uwch na'r targed o 350) o raglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr sicrhau cyflogaeth ac fe wnaeth 93 o bobl (sydd ychydig yn is na'r targed o 100) wella'u sefyllfa yn y farchnad Lafur. Mae nifer o gynlluniau grant wedi'u lansio'n llwyddiannus, ac rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda grwpiau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gyflawni'r rhaglen cyflogadwyedd, gan gynnwys Gyrfa Cymru, BAVO, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Rhwydwaith Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr. Mae 213 o bobl wedi cael eu cyfeirio at y gwasanaeth cyflogaeth yn Adferiad Rhwyddach yn eich Cymuned (ARC) i gael cymorth gyda materion iechyd meddwl. |
| **Sicrhau bod ein pobl ifanc yn dod o hyd i swyddi neu mewn addysg neu hyfforddiant** | DA | Mae 76 o bobl ifanc ar raglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu cynorthwyo i ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant (yn erbyn targed o 727), gan ein bod newydd ddechrau prosiectau newydd a meini prawf cymhwystra newydd ar gyfer cyllid ac yn ymdrin â materion capasiti staff. Mae ymgyrch marchnata wedi cael ei ddatblygu ar gyfer pobl ifanc, i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.<br><br>Mae canran y dysgwyr blwyddyn 11 sy'n gadael ysgol ac nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn well na chyfartaledd Cymru, yn 4ydd yng Nghymru ac yn well na'r llynedd ar 1.4%.<br><br>Aethpwyd i'r afael â materion swyddi gwag y Cyngor trwy gynlluniau tyfu ein talent ein hunain, gweithio hyblyg a datblygu arweinwyr. Mae gennym 8 hyfforddai gwaith cymdeithasol mewn swyddi. |

| Nod | CAMG | Perfformiad eleni |
|---|---|---|
| **Gwella canol ein trefi, eu gwneud yn fwy diogel a deniadol** | DIGONOL | Rydym wedi datblygu dau gynllun creu lleoedd - ar gyfer Maesteg a Phorthcawl - gan ymgysylltu â phobl a busnesau lleol i adlewyrchu eu blaenoriaethau.<br><br>Mae'r prosiect adnewyddu gwerth £8 miliwn ar Neuadd y Dref Maesteg bron â chael ei gwblhau, gyda'r adeilad rhestredig hwn yn cael ei adfer a'i estyn i ddarparu hyb cymunedol a chanolfan gelfyddydol a diwylliannol ar gyfer Cwm Llynfi.<br><br>Mae nifer o grantiau o Gynlluniau Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru wedi cael eu dyfarnu i fusnesau ym Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr ac wedi arwain at wella 8 eiddo er mwyn iddynt gael eu defnyddio unwaith eto, gan gynnwys bwytai yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Cwblhawyd y gwaith gwerth £3 miliwn i ailddatblygu Cosy Corner ym Mhorthcawl, gydag adeilad gwydr a cherrig newydd yn gartref i siopau a bwytai lleol, cyfleusterau toiledau cyhoeddus newydd a lleoedd newid, gwell cyfleusterau ar gyfer deiliaid angorfeydd yr harbwr a man agored wedi'i dirlunio gyda chanopi a byrddau picnic.<br><br>Nid yw dau ymrwymiad o dan y nod hwn wedi gallu symud ymlaen oherwydd diffyg cyllid. Mae hyn wedi cael effaith ar gyflawniad yn erbyn y nod yn ei gyfanrwydd. Ni fu unrhyw gynnydd gyda Phont Penprysg gan na chawsom gyllid gan Lywodraeth y DU. Nid fu unrhyw gynnydd gyda gwelliannau i Orsaf Ganolog Pen-y-bont ar Ogwr, ond byddwn yn parhau i chwilio am ffynonellau cyllid. |
| **Denu buddsoddiad a chefnogi busnesau lleol newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli** | DA | Mae 219 o fusnesau newydd (o'i gymharu â tharged o 52) wedi cael eu cefnogi trwy gyngor, cynigion am grantiau, deunydd ar gyfer y we, rhwydweithio wyneb-yn-wyneb a chyfleoedd i fod yn rhan o ddigwyddiadau. Mae 25 o fusnesau wedi cael cymorth trwy'r gronfa ffyniant gyffredin, sy'n fwy o alw nag yr oeddem yn ei ddisgwyl.<br><br>Mae'r Cyngor wedi gwneud mwy o'i weithgarwch prynu a chontractau o dan £100,000 trwy fusnesau lleol.<br><br>Mae gwaith yn parhau ar y prosiect Rheoli Cysylltiadau â Chyflenwyr [SRM] i helpu busnesau lleol i dendro am waith yn y sector cyhoeddus. Mae tudalen we newydd wedi cael ei datblygu ond nid yw wedi cael ei hyrwyddo eto ac nid yw gweithdai i gyflenwyr wedi cael eu cynnal eto oherwydd materion staffio.<br><br>Bu ymgysylltu rhanbarthol â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd [PRC] i fonitro datblygiadau, lledaenu gwybodaeth a symud cynlluniau sy'n cael arian grant yn eu blaenau gan gynnwys Metrolink a Heol Ewenny, Maesteg. |



| Nod | CAMG | Perfformiad eleni |
|---|---|---|
| **Gwneud y cyngor yn lle deniadol i weithio** | DIGONOL | Rydym wedi adnewyddu polisïau staff, wedi gweithredu'r cyflog byw gwirioneddol ac wedi parhau i hyrwyddo iechyd, llesiant a hunanofal.<br>Lansiwyd Rhaglen Cymorth i Gyflogeion newydd ym mis Rhagfyr 2023. Mae gwaith yn parhau ar y protocol menopos a gofalwyr. Mae cynnydd cadarnhaol pellach yn parhau gyda'r rhaglen "Tyfu Eich Talent Eich Hun". Rydym yn parhau i hyrwyddo arbedion a ddaw trwy wobrwyon Brivilege i helpu gyda Chostau Byw.<br>Cynhaliwyd ein harolwg staff ym mis Chwefror/Mawrth 2024 ond cafodd gyfradd ymateb wael o ddim ond 24%. Roedd ymatebion ychydig yn llai cadarnhaol nag yn 2023 ar gyfer y rhan fwyaf o'r cwestiynau olrhain. Byddwn yn cynnal grwpiau ffocws i fynd dan groen y prif ffigyrau a'r gyfradd ymateb wael. |
| **Sicrhau bod cyflogaeth yn deg, yn gyfiawn ac yn talu'r cyflog byw gwirioneddol** | RHAGOROL | Rydym wedi gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi, gan annog cyflogwyr i gynnig hyfforddiant a gweithio gyda'n cyflenwyr i ddarganfod a ydynt yn gyflogwyr cyflog byw gwirioneddol. Mae 250 o gyflogwyr yn y Fwrdeistref wedi cael eu hachredu'n gyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol. |

## Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Cyflawni rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin 2024/25.
- Gwella'r arlwy cyflogadwyedd i bobl ag anghenion o ran gofal a chymorth.
- Datblygu cynllun lleol a rhanbarthol i helpu pobl ag anghenion o ran cymorth i oresgyn rhwystrau i waith.
- Hyfforddiant dysgu a datblygu i gefnogi gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso.
- Rhedeg y cynllun arian grant trawsnewid trefi.
- Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, Network Rail a Llywodraeth Cymru i asesu opsiynau ariannu ar gyfer ailddatblygu pont ffordd Penprysg, croesfan wastad Pen-coed a'r Orsaf Ganolog.
- Diweddaru ein strategaeth gaffael, y cynllun gweithredu a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn seiliedig ar ddeddfwriaeth newydd Llywodraeth y DU.
- Rhedeg grwpiau ffocws i ddeall canlyniadau'r arolwg staff yn well a datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â hwy.
- Annog ein cyflenwyr i ddod yn gyflogwyr cyflog byw gwirioneddol


## Astudiaeth achos Cyflogadwyedd

Mae Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi cymorth i bobl ddi-waith, a'r rhai sydd mewn gwaith, ond sy'n cael trafferth gyda sgiliau isel neu dlodi mewn gwaith. Eleni fe wnaethom helpu 366 o bobl i gael cyflogaeth a helpu 93 o bobl i gael swyddi gwell. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gyflawni'r rhaglen cyflogadwyedd, gan gynnwys Gyrfa Cymru, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont (BAVO), yr Adran Gwaith a Phensiynau a Rhwydwaith Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym hefyd wedi atgyfeirio 213 o bobl at y gwasanaeth cyflogaeth yn Adferiad Rhwyddach yn eich Cymuned (ARC) i gael cymorth gyda materion iechyd meddwl.



# Amcan Llesiant 3

| Amcan Llesiant 3 | SGÔR |
|---|---|
| **Bwrdeistref Sirol lle mae cymunedau'r cymoedd yn ffynnu** | **DA** |




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi rhagor o fanylion i chi ynglŷn â sut yr ydym yn gwneud ar bob nod dan yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Buddsoddi yng nghanol trefi, gan gynnwys canol tref Maesteg** | DA | Mae Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Maesteg wedi cael ei ddatblygu ac mae ymgynghoriad wedi cael ei gynnal arno. Bydd yn rhoi arweiniad ar gyfer penderfyniadau buddsoddi a pholisi a fydd yn llunio dyfodol y dref. Mae'r Grant Gwella Eiddo Masnachol wedi cael ei ddatblygu a'i farchnata. Mae 1 prosiect ar y gweill ac rydym eisoes wedi helpu 4 eiddo masnachol trwy'r cynllun grant gwella. |
| **Creu mwy o swyddi yn y Cymoedd** | DIGONOL | Rydym wedi gwneud cais am grant mawr gan Fenter Cymoedd Gogleddol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC). Os byddwn yn llwyddiannus, byddwn yn gallu datblygu ystod o adeiladau diwydiannol yn y Cymoedd.<br>Rydym yn gweithio gydag Awen i ddarparu cyfleusterau newydd ar gyfer hyfforddiant â chymorth i bobl ag anableddau dysgu yn Wood B a B-Leaf ym Mryngarw. Dyfarnwyd y tendr ac mae'r gwaith dylunio'n mynd rhagddo. |
| **Gwella cyfleusterau cymunedol a'u gwneud yn fwy hygyrch** | DA | Dim ond 3 proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol o'n targed o 5 a gwblhawyd (Betws, Llangynwyd a Pharc Garth, Maesteg). Effeithiwyd ar nifer y trosglwyddiadau gan faterion eiddo a phroblemau capasiti staff. Buddsoddwyd £296,662 gyda phrosesau Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn y Cymoedd.<br>Bu cynnydd sylweddol o ran ailddatblygu safle Heol Ewenni, gyda chaniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer datblygiad defnydd cymysg, (gan gynnwys cartrefi newydd a ffordd, canolfan fenter, man agored a seilwaith gwyrdd) a'r safle'n cael ei farchnata i'w werthu.<br>Bu 353,782 o ymweliadau â Chanolfan Bywyd Cwm Garw a Chwm Ogwr, Pwll Nofio Maesteg a Chanolfan Chwaraeon Maesteg. Rydym yn gynyddol yn ceisio canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n meithrin cysylltiadau cymdeithasol / llesiant meddyliol ac yn lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae cynllun datblygu digidol mewn 5 lleoliad cymunedol, gan nodi sut y gall staff / gwirfoddolwyr ddefnyddio dulliau digidol gan gynnwys ffrydio gweithgareddau. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Gwella addysg a sgiliau yn y Cymoedd** | DIGONOL | Mae Meithrinfeydd Dechrau'n Deg ym Mhontycymer, Nant-y-moel a Chwm Ogwr bellach yn cynnal sesiynau bore a phrynhawn, gyda chyfanswm o 60 o blant.<br>Mae diddordeb ymhlith darparwyr gofal plant yn lleoliadau Betws a Blaengarw, ond nid yw'r ddogfennaeth brydlesu wedi cael ei chwblhau, felly ni ellir cynnal proses dendro ar gyfer y naill na'r llall eto. |
| **Buddsoddi yn ein parciau a'n mannau gwyrdd a chefnogi twristiaeth i'r cymoedd** | RHAGOROL | Bu cynnydd da o ran datblygu Strategaeth Adfywio'r Cymoedd, gydag ymgysylltu ledled ardaloedd y 3 chwm. Mae strategaeth ddrafft yn cael ei pharatoi ar gyfer ymgynghori.<br>Cwblhawyd y gweithgarwch a oedd i'w gyflawni fel rhan o brosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf (RhNCT) yn ystod 23/24 ac mae'r adroddiad gwerthuso yn dangos bod y prosiect wedi bod yn llwyddiant. |
| **Annog datblygiad cartrefi fforddiadwy newydd yn y cymoedd** | ANFODDHAOL | Mae'r Cyngor yn cwrdd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i roi hwb ac anogaeth i ddatblygu tai cymdeithasol newydd yn y cymoedd. Mae llif o gyfleoedd yn cael eu datblygu.<br>Dim ond 2 (yn erbyn targed o 20) gartref fforddiadwy ychwanegol sydd wedi cael eu darparu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y Cymoedd eleni. Bu ffactorau allanol a effeithiodd ar ddarparu safleoedd newydd, gan gynnwys gwrthwynebiadau CNC nad ydym wedi gallu eu datrys o fewn y flwyddyn.<br>Ni fu cynnydd o ran rhoi anogaeth i ddatblygu cartrefi hunanadeiladu ar leiniau mewnlenwi, i gynyddu'r ystod o dai, gan nad oes adnoddau nac arian ar gael. |



## Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?


- Cwblhau a chyhoeddi'r cynllun creu lleoedd ar gyfer Maesteg.
- Gwella marchnata ar gyfer y grant gwella eiddo masnachol.
- Cynnig am gyllid i gyflwyno adeiladau a thir gerbron ar gyfer twf busnes yn y Cymoedd
- Gweithio gydag Awen i ddatblygu'r cyfleusterau newydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn wood-B a B-leaf.
- Cynyddu buddsoddiad mewn prosesau Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn y Cymoedd.
- Gwerthu safle Heol Ewenni ar gyfer datblygiad defnydd cymysg gan gynnwys cartrefi newydd a fforddiadwy, hyb menter, man agored a seilwaith gwyrdd.
- Darparu gweithgareddau ychwanegol mewn lleoliadau cymunedol yn y Cymoedd.
- Datblygu a hyrwyddo'r defnydd o lyfrgelloedd yng nghymunedau'r Cymoedd.
- Gweithredu'r prosiect datblygu digidol mewn 5 lleoliad cymunedol.
- Buddsoddi mewn rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gysylltiadau cymdeithasol / llesiant meddyliol a lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd.
- Cwblhau'r ddogfen brydlesu ar gyfer cyfleusterau gofal plant Betws a Blaengarw fel eu bod yn weithredol ym mis Tachwedd 2024.
- Ymgynghori ar strategaeth adfywio ar gyfer y Cymoedd yn haf 2024.
- Gweithredu'r prosiect gwella mannau gwyrdd.
- Gweithio gyda LCC, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ddatrys ffactorau allanol sy'n effeithio ar ddarparu safleoedd tai fforddiadwy newydd yn y Cymoedd.

## Astudiaeth achos
## Rhwydwaith natur Cwm Taf

Daeth Rhwydwaith Natur Cwm Taf (RhNCT) â sefydliadau gwahanol at ei gilydd i helpu i ailgysylltu pobl â natur. Roedd amrywiaeth o weithgareddau mewn parciau a mannau gwyrdd, gan gynnwys gweithgareddau codi sbwriel, plannu coed, hela pryfed, teithiau cerdded tywys ac adrodd storïau. Roedd cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi hefyd. Fe wnaed gwelliannau i helpu pobl i gael mynediad at fannau gwyrdd, gan gynnwys arwyddion, grisiau, llwybrau a biniau newydd. Fe wnaeth y prosiect hefyd wella mannau gwyrdd, gan gynhyrchu cynlluniau rheoli tirwedd, cynnal arolygon coed, gwneud gwaith clirio, plannu dolydd blodau gwyllt a chreu ardaloedd adrodd storïau ac fe wnaeth godi ymwybyddiaeth am reoli rhywogaethau goresgynnol trwy ddisgo tawel wrth waredu jac y neidiwr. Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys Cynulliad Gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr, ym Mharc Gwledig Bryngarw.



| Amcan Llesiant 4 | SGÔR |
|---|---|
| **Bwrdeistref Sirol lle rydym yn helpu pobl i gyflawni eu potensial** | **DIGONOL** |




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi rhagor o fanylion i chi ynglŷn â sut yr ydym yn gwneud ar bob nod dan yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Darparu ysgolion diogel, cefnogol gydag addysgu o ansawdd uchel** | DIGONOL | Mae ysgolion wedi cael offer i helpu i wella canlyniadau arolygu Estyn, gan gynnwys pecynnau cymorth hunanwerthuso, cynlluniau datblygu ysgolion a adolygwyd, a chymorth gyda chamau gweithredu ôl-arolygiad.<br>Mae pob ysgol wedi cwblhau archwiliadau diogelu, gyda 95% wedi cael sgôr "gwyrdd". Cafodd tair ysgol sgôr ambr gyda meysydd ar gyfer gwella i fynd i'r afael â hwy.<br>Mae cyfleoedd dysgu digidol ychwanegol wedi bod ar gael i ysgolion trwy Gonsortiwm Canol De Cymru, gan gynnwys hyfforddiant cymhwysedd digidol, hyfforddiant google classroom a phlatfformau digidol, mapio sgiliau'r Cwricwlwm i Gymru, a hyfforddiant diogelwch ar-lein (a ddarperir i lywodraethwyr hefyd).<br>Mae'r Grŵp Golygyddion Ifainc wedi cyd-ddatblygu cynnwys ar gyfer gwefan ryngweithiol dan arweiniad pobl ifanc.<br>Mae ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn ffordd wych o ymgysylltu â phobl ifanc. Mae ymgysylltu â phobl ifanc wedi adnabod mai "TikTok" yw'r platfform a ffefrir ar y cyfryngau cymdeithasol, y bydd Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn ei dreialu yn ystod y misoedd nesaf. |
| **Gwella cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu** | DIGONOL | Rydym yn cynnal adolygiad o gyfleoedd dydd i roi cyfle i oedolion ifainc ag anableddau dysgu roi cynnig ar weithgareddau, ennill sgiliau newydd a chyflawni eu potensial.<br>Mae cysylltiadau â'n Tîm Cyflogadwyedd yn cael eu datblygu, a bu nifer fach o gyfleoedd gwirfoddoli yn y Gwasanaeth Dydd.<br>Mae gweithgor rhanbarthol wedi cael ei sefydlu ar gyfer Niwroamrywiaeth ac Anabledd Dysgu, gyda chyfarfod rhanddeiliaid yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2024 i adnabod y ddarpariaeth gyfredol a rhwydweithiau rhwng darparwyr. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Ehangu cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg** | ANFODDHAOL | Mae amrywiaeth o grwpiau, prosiectau a mentrau ar waith i gynyddu cyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg, ond nid yw'r targedau a osodwyd gennym wedi cael eu cyrraedd ym mhob maes. Mae canran y dysgwyr blwyddyn 1 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn 8.56% ac mae'n parhau i ddangos tuedd sy'n gwella, ond mae canran y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau a asesir trwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 wedi gostwng ychydig i 6.62%, sy'n dynodi bod cyfran lai o blant yn astudio mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae nifer y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer arholiad Safon Uwch mewn Cymraeg ail iaith yn dal i fod yr un fath â'r llynedd, er ei fod bron ddwywaith gymaint â'r rhai a safodd arholiadau Cymraeg Safon Uwch iaith gyntaf.<br>Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed - rydym wedi datblygu tudalennau gwe cyfrwng Cymraeg ac wedi bod yn cynllunio ar gyfer hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. |
| **Moderneiddio adeiladau ein hysgolion** | ANFODDHAOL | Mae pob un o'r pum cynllun ar y cam dylunio / datblygu ac maent wedi profi oedi trwy gydol 2023-2024, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn costau rhagamcanol, gydag effaith fawr ar amserlenni prosiectau, ystyried opsiynau a gwneud penderfyniadau.<br>Effeithiwyd ar raddfeydd amser safle newydd Ysgol Gymraeg Bro Ogwr oherwydd adolygiad o gynllun dyluniad y maes parcio a pharcio ar gyfer cludiant i'r ysgol (i sicrhau diogelwch disgyblion/defnyddwyr) yn ogystal â materion ecolegol ar safle newydd Ffordd Cadfan. Mae strategaeth ar gyfer gwneud y gwaith yn cael ei datblygu gyda mewnbwn gan yr ecolegydd.<br>Bu cynnydd sylweddol yn y gost ac oedi cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r opsiwn a ffefrir ar gyfer safle newydd Ysgol Pont y Crychydd, sydd wedi effeithio ar y raddfa amser ar gyfer cyflawni'r prosiect.<br>Nid yw'r cais cynllunio ar gyfer adeilad newydd Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig wedi cael ei gyflwyno eto, gan bod angen cadarnhau'r opsiwn a ffefrir ar gyfer y seilwaith priffyrdd.<br>Mae'r broses ymgynghori cyn ymgeisio ar gyfer Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr (adeilad newydd Ysgol y Ferch o'r Sgêr a'r ysgol cyfrwng Saesneg newydd) wedi cael ei chwblhau ac mae cynllun cost wedi cael ei ddatblygu, a hwnnw wedi cael ei adolygu ar y cyd â Llywodraeth Cymru / Cwmni Partneriaeth Addysg Cymru (WEPCo), ac mae proses peirianneg gwerth wedi cael ei chyflawni. Mae adolygiadau Llywodraeth Cymru wedi effeithio ar y graddfeydd amser ar gyfer cyflawni. |
| **Denu pobl ifanc i ymgymryd â chyflogaeth yn CBSP a'u cadw** | RHAGOROL | Rydym wedi ymgysylltu ag ysgolion trwy Adroddiadau'r Cyfarwyddwr a gyflwynir yn dymhorol ac wedi mynychu ffeiriau swyddi, nosweithiau dewisiadau a digwyddiadau gyrfaoedd mewn ysgolion cyfun i hyrwyddo'r arlwy brentisiaethau, gan gyflwyno gweithdai ar ymgeisio am swyddi prentisiaeth a gwella sgiliau cyfweliad.<br>Mae nifer y prentisiaid a gyflogir gan y cyngor wedi cynyddu o 36 yn 22-23 i 46 yn 23-24, gyda 90% o'r rhai sy'n cwblhau eu prentisiaethau yn 23-24 yn mynd ymlaen i gael rôl nad yw'n brentisiaeth. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Cynnig gwasanaethau ieuenctid a rhaglenni gwyliau ysgol i'n pobl ifanc** | **RHAGOROL** | Cymerodd 130 o blant ran yn y Rhaglen Bwyd a Hwyl, lle gwnaeth plant fynychu 12 sesiwn i gefnogi eu hiechyd corfforol a'u llesiant emosiynol a chael brecwast a chinio iach.<br>Cymerodd 19,659 o blant yn y Fwrdeistref Sirol ran yn y fenter nofio-am-ddim genedlaethol i rai 16 oed ac iau.<br>Fe wnaeth rhaglenni darganfod gefnogi tua 50 o deuluoedd gyda phobl ifanc â lefelau uwch o anghenion ychwanegol, gyda gweithgareddau i'r bobl ifanc a seibiant i'r teuluoedd.<br>Mae 22 o deuluoedd wedi cael eu hatgyfeirio a 70 o unigolion wedi cael cymorth yn ein dull "camu i fyny a chamu i lawr" ar gyfer gofal cymdeithasol lefel isel.<br>Darparwyd rhaglenni gyda halo a grwpiau cymunedol gyda gweithgareddau ieuenctid ar gyfer pobl ifanc mwy agored i niwed.<br>Gan ddefnyddio cyllid gan Gynghorau Tref a Chymuned / Llywodraeth Cymru bu rhaglenni gweithgareddau gwyliau am ddim i blant 8-11 oed mewn 8 lleoliad gan gynnwys canolfannau hamdden, safleoedd ysgolion uwchradd a lleoliadau cymunedol.<br>Mae 357 o bobl ag anghenion ychwanegol neu amrywiol wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u targedu gan gynnwys Haf o Hwyl / Gaeaf Llawn Lles. |
| **Gweithio gyda phobl i ddylunio a datblygu gwasanaethau** | **RHAGOROL** | Mae'r rhaglen Teimlo'n Dda Am Oes a ddarperir gan Halo Leisure wedi defnyddio paneli adolygu cymheiriaid i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i gynllunio ar gyfer gwelliannau. Mae gweithgor cynllunio dementia wedi cael ei sefydlu i rannu mewnwelediad a chyfleoedd i gydweithio rhwng sefydliadau partner.<br>Rydym yn gweithio gyda Cwmpas a gofalwyr i wneud gwelliannau o ran sut y gallant gael gafael ar yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt, a sut y gallai defnyddio ystod o egwylion byr wella eu cydnerthedd i ofalu. |
| **Cefnogi ac annog dysgu gydol oes** | **DIGONOL** | Bu nifer o ymarferion hyrwyddo i ymgysylltu â thrigolion am y gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL). Cyflwynwyd 53 o gyrsiau/sesiynau wyneb-yn-wyneb, gan gynnwys cyrsiau achredig, sesiynau untro i roi blas ar ddysgu a sesiynau galw heibio digidol rheolaidd. Mae partneriaeth lwyddiannus wedi datblygu gyda nifer o ysgolion cynradd ac fe gynhaliwyd ymgyrchoedd recriwtio effeithiol. Eleni gwelwyd cynnydd yn niferoedd y cofrestriadau o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol; fodd bynnag, ni wnaethom gyrraedd ein targed gan bod ymgyrchoedd ymgysylltu gweithredol wedi dod i ben oherwydd y cynnig a gymeradwywyd i ddadflaenoriaethu cyllid ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned ym mis Chwefror 2024. |
| **Bod y rhieni gorau y gallwn i'n plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal** | **DA** | Mae cydweithio yn y tîm 16+ wedi arwain at ostyngiad yn nifer y rhai sy'n gadael gofal sy'n profi digartrefedd. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r sgiliau y mae eu hangen ar y rhai sy'n gadael gofal i fyw'n annibynnol.<br>Mae nifer y rhai sy'n gadael gofal sy'n cwblhau 12 mis olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (EET) ers gadael gofal wedi gwella i 68.97%, ond bu gostyngiad bach yn y rhai sy'n cwblhau 13-24 mis. Bu gostyngiad amlwg ers cyflwyno'r Peilot Incwm Sylfaenol.<br>Rydym wedi cyhoeddi ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol newydd a gofynnir yn awr i asiantaethau sy'n aelodau o'r bwrdd ymrwymo i Adduned Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru.<br>Rydym wedi sefydlu tudalen codi arian ar gyfer digwyddiad gwobrwyo i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal rhwng 5 a 21 oed.<br>Bydd profiad o fod mewn gofal yn cael ei gydnabod fel nodwedd warchodedig yn awr i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried yn ein holl benderfyniadau. |

# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Cynorthwyo ysgolion (gan weithio gyda Chonsortiwm Canol De Cymru) i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r trefniadau asesu, gan roi anogaeth ar gyfer dysgu ac addysgu o safon uchel.
- Gweithredu'r Model Adfer wedi Trawma (TRM) ar draws y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i gefnogi plant a'u teuluoedd yn well.
- Sicrhau bod plant yn cael eu dargyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol trwy ymyriadau priodol ar y cyfle cynharaf (gan weithio gyda'r heddlu a'r llysoedd).
- Symleiddio atgyfeiriadau cyfiawnder ieuenctid, trwy'r Panel Atal a Dargyfeirio, gan sicrhau trosglwyddiadau llyfn i asiantaethau eraill ar gyfer achosion lle gellir osgoi troseddoli.
- Cynyddu addysg, hyfforddiant a chymorth cyflogaeth i blant nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu ag amserlenni wedi'u lleihau.
- Datblygu a gweithredu platfform digidol i glywed llais pobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn cael gwasanaethau.
- Cwblhau archwiliad o sgiliau llywodraethwyr i oleuo eu proses hunanwerthuso.
- Trefnu hyfforddiant diogelu ychwanegol ar gyfer staff a llywodraethwyr ysgolion.
- Darparu hyfforddiant dysgu digidol ychwanegol i ysgolion.
- Lansio'r wefan a'r cyfrif TikTok newydd i roi gwybodaeth gyson i bobl ifanc.
- Datblygu cynllun lleol a rhanbarthol ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.
- Gweithredu'r cynllun cyfathrebu ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cwblhau'r adolygiad adolygiad o gynllun dyluniad y maes parcio a pharcio ar gyfer cludiant i'r ysgol ar safle newydd Ysgol Gymraeg Bro Ogwr a datblygu strategaeth ar mynediad i'r safle a gwneud y gwaith gyda mewnbwn gan yr ecolegydd.
- Bwrw ymlaen â'r gwaith ar yr 'opsiwn gwneud y mwyaf posibl (hynny yw, yr ysgol a darpariaeth breswyl yr ysgol) a phwll nofio' ar gyfer safle newydd Ysgol Pont y Crychydd yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet i'r ffordd ymlaen ym mis Mawrth 2024.
- Cyflwyno cais cynllunio ar gyfer adeilad newydd Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig.
- Disgwyl am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i gynllun y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (hynny yw, â chyllid refeniw) ar gyfer y broses ymgynghori cyn ymgeisio ar gyfer Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr (hynny yw, adeilad newydd Ysgol y Ferch o'r Sgêr a'r ysgol cyfrwng Saesneg newydd).
- Adolygu'r cynllun gweithredu ar gymorth i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal trwy'r bwrdd diogelu corfforaethol.
- Bydd y Tîm Addysg ac Ymgysylltu / Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gydweithio'n agos i roi cymorth i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a rhoi cynlluniau addysg personol ar waith cyn gynted â phosibl.

# Astudiaeth achos
## Rhaglen Bwyd a Hwyl

Mae'r Rhaglen Bwyd a Hwyl wedi bod yn cael ei darparu ers 2018, ac roedd yn digwydd mewn un ysgol gynradd i ddechrau. Yn 2023 cafodd ei rhedeg mewn pedair ysgol: tair ysgol gynradd ac un uwchradd. Mae'r rhaglen yn darparu brecwast a chinio iach, gweithgareddau corfforol, ac addysg maethiad dros 12 diwrnod o wyliau'r haf. Mae ysgolion a Thîm y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant wedi cydweithio i gynyddu nifer y plant sy'n defnyddio'r cynlluniau bob blwyddyn. Yn 2023, daeth 131 o blant i'r cynllun, sy'n cael adborth cadarnhaol yn gyson gan rieni.




## Fforwm Ieuenctid Pobl Ifanc â Phrofiad o Fod mewn Gofal

Rydym wedi gweithio gyda'r Fforwm Ieuenctid Pobl Ifanc â Phrofiad o Fod mewn Gofal i drefnu gweithdy i bobl ifanc mewn gofal (11+ oed) i rannu eu profiadau o ofal maeth. Gydag arweiniad gan Connor Allen, cyn-Fardd Plant Cymru, fe wnaethon nhw greu cerdd i godi eu lleisiau a herio camsyniadau. Yn hydref 2023, cymerodd y fforwm ieuenctid ran mewn gweithdai fel rhan o ymgyrch cenedlaethol, gyda Maethu Cymru, i chwalu camsyniadau am bobl ifanc mewn gofal a chreu murlun ym Mracla.



| Amcan Llesiant 5 | SGÔR |
|---|---|
| **Bwrdeistref Sirol sy'n ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur** | **DA** |




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi rhagor o fanylion i chi ynglŷn â sut yr ydym yn gwneud ar bob nod dan yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Symud tuag at garbon sero-net, a gwella ein heffeithlonrwydd ynni** | **DIGONOL** | Ar y cyfan, cyflawnwyd gostyngiad o 4.3% mewn allyriadau yn 23-24, ychydig yn llai na'n targed o 5%, ond cam cadarnhaol yn ein rhwymedigaethau erbyn 2030, gyda gostyngiadau yn y defnydd o drydan a nwy a defnydd ynni sy'n gysylltiedig â $CO_2$ ar draws ein hadeiladau.<br><br>Ceir rhwystrau sylweddol o ran costau i symud cerbydau fflyd o betrol/diesel traddodiadol i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV), ond rydym wedi defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i gaffael 6 cherbyd trydan, a ddefnyddir gan Wasanaeth Cymorth-yn-y-Cartref y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Mae'r lefel nitrogen deuocsid ar gyfartaledd yn Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, wedi gwella. Mae mesurau yn y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (CGAA) wedi datblygu ac wedi cael eu mireinio, a fydd yn lleihau lefelau ymhellach ar ôl eu gweithredu. Mae modelu bellach yn rhagweld mai 2026 fydd y flwyddyn gydymffurfio debygol gyda'r holl fesurau ar waith. |



| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Gwarchod ein tirweddau a'n mannau agored a phlannu rhagor o goed** | DA | Llwyddodd y prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i gyflawni ei raglen waith ar gyfer 23/24 a oedd yn cynnwys cynlluniau gwella bioamrywiaeth yng Nghaeau Chwarae Heol y Cyw ac ar dir y tu ôl i Bwll Nofio'r Pîl a chynlluniau cysylltedd cynefinoedd yn Sarn, Brynmenyn, Caeau'r Bontnewydd, Cefn Glas, Abercynffig, Bryntirion a'r Castell Newydd.<br>Cwblhawyd y gweithgarwch a oedd i'w gyflawni fel rhan o brosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf (RhNCT) yn ystod 23-24 ac roedd yr adroddiad gwerthuso'n dangos bod y prosiect wedi bod yn llwyddiant, gan wella mynediad at fannau gwyrdd i bobl leol, gwella ansawdd amgylchedd y mannau gwyrdd hynny, a chysylltu mannau gwyrdd.<br>Nid oedd modd cyflawni ein hymrwymiad i blannu 10,000 yn rhagor o goed. Cwblhawyd y gwaith dichonoldeb ar gyfer y cynlluniau, ond mae angen ymchwilio ymhellach i'r opsiwn o ran safle a ffefrir a rhaid sicrhau cyllid cyn y gall y cynllun hwn fynd rhagddo ymhellach.<br>Llwyddodd 3 thraeth ym Mae Gorffwys, Bae Trecco a Marina Porthcawl i gadw eu statws baner las, a llwyddodd Amlosgfa Llangrallo a Pharc Llesiant Maesteg i gadw eu statws fel parciau baner werdd / mannau gwyrdd. |
| **Gwella ansawdd tir y cyhoedd a'r amgylchedd adeiledig trwy egwyddorion creu lleoedd da** | DA | Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ym mis Mawrth 2024 ar ôl archwiliad cyhoeddus helaeth yng ngwanwyn 2023 gan Arolygydd a Benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn awr byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ychwanegu at y polisïau yn y CDLl.<br>Mae'r Adran Gynllunio wedi gweithredu proses ailstrwythuro yn ystod y flwyddyn hon gan arwain at greu swyddi newydd, a gwella canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd o 64% i 87% a'r ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos o 64% i 68%, ond mae hyn yn dal yn is na'r targed. |
| **Lleihau, ailddefnyddio neu ailgylchu cymaint o'n gwastraff â phosibl** | RHAGOROL | Mae ein safonau uchel o ran ailgylchu wedi parhau, gyda chanran y gwastraff glanhau strydoedd a ailgylchir wedi cynyddu i 41.12%, canran y gwastraff trefol a gesglir sy'n cael ei baratoi i'w ailddefnyddio, yn cael ei ailgylchu neu fiowastraff sy'n cael ei gompostio wedi cynyddu i 71.94% a swm y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir wedi gostwng ymhellach i 119.8 kg y pen.<br>Fe wnaeth canran y tir priffyrdd y canfuwyd ei fod o lefel dderbyniol neu lefel uchel o lendid wella hefyd i 99.97%.<br>Mae gwaith wedi dechrau ar ein model gwasanaethau gwastraff yn y dyfodol, gan ymgysylltu ag arbenigwr yn y diwydiant i amlinellu ein hopsiynau ar sail dadansoddiad o ddata o'n model presennol – opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol.<br>Agorodd y Ganolfan Ailgylchu Gymunedol (CAG) newydd yn y Pîl ar 14 Mawrth 2024. |
| **Gwella cynlluniau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd i leihau llifogydd yn ein cartrefi a'n busnesau** | RHAGOROL | Mae cynlluniau atal llifogydd a chwlfertau newydd wedi cael eu cwblhau yn Stryd yr Orsaf, Nant-y-moel, a Heol y Frenhines, Blaengarw a'u monitro o safbwynt effeithiolrwydd dros gyfnod y gaeaf. Mae cynigion am gyllid gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer cynlluniau a adnabuwyd ar gyfer 2024/25. Cyflawnwyd gwaith clirio cwteri ychwanegol a oedd wedi'i dargedu at leoliadau llifogydd hanesyddol, a gweithrediadau glanhau ffosydd i wella perygl llifogydd mewn ardaloedd gwledig. Mae mwy o gwlfertau wedi cael eu hychwanegu at y drefn fonitro, gydag archwiliadau mwy mynych o'r cwlfertau risg uchel, a synwyryddion rhybuddio wedi cael eu hailosod / eu huwchraddio mewn rhai lleoliadau. Gwnaed gwelliannau i'r broses ymgeisio statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau), gyda 100% o'r ceisiadau'n cael eu prosesu o fewn 7 wythnos. |

# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Adolygu ein strategaeth pontio fflyd i gyrraedd y targed yn 2035 ar gyfer sero net
- Cytuno a chyhoeddi'r cynllun gweithredu ansawdd aer (CGAA) terfynol.
- Gosod mannau gwefru ceir trydan yn lleoliad cymorth-yn-y-cartref y gwasanaethau cymdeithasol
- Datblygu ac archwilio'r posibiliadau o ran cyllid ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau'r cyngor.
- Datblygu canllawiau cynllunio atodol i ategu ein CDLl newydd
- Gwelliannau pellach i'n tirweddau a'n mannau gwyrdd drwy'r prosiect Gwella Mannau Gwyrdd newydd.
- Bydd gwaith pellach ar y model gwastraff yn y dyfodol a phenderfyniad ar fodel newydd yn cael eu gwneud yn 2024/25.
- Datgomisiynu'r Ganolfan Ailgylchu Gymunedol sydd wedi dyddio yn Llandudwg.

## Astudiaeth achos
## Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)


Eleni, mabwysiadodd y cyngor gynllun datblygu lleol (CDLl) newydd, a fydd yn siapio datblygu hyd at 2033. Mae hyn yn cynnwys bod â digon o dir ar gael i gefnogi cynnydd yn y boblogaeth, creu 7,500 o swyddi newydd ac adeiladu 7,575 o gartrefi. Bydd hyn yn cynnwys 1,700 o dai fforddiadwy, y mae rhai ohonynt eisoes wedi cael eu hadeiladu. Bydd yn dod â thua £116 miliwn o gyllid i mewn o ddatblygiadau tai mawr. Mae'r datblygiadau'n cynnwys pum ysgol gynradd newydd, a chyfleusterau trafnidiaeth gwell fel parcio a theithio. Ein CDLl yw'r cynllun datblygu newydd cyntaf i gael ei fabwysiadu ers y pandemig gan roi Pen-y-bont ar Ogwr ar flaen y gad o ran cynllunio yng Nghymru.



# Amcan Llesiant 6

**SGÔR: DIGONOL**

**Bwrdeistref Sirol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed ac yn rhan o'u cymuned**




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi rhagor o fanylion i chi ynglŷn â sut yr ydym yn gwneud ar bob nod dan yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Dathlu a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant a mynd i'r afael â gwahaniaethu** | DIGONOL | Ymgynghorwyd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) newydd ar gyfer 2024-28 a bydd yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn gynnar yn 2024/25.<br><br>Dim ond 48% o staff y cyngor sydd wedi cwblhau hyfforddiant cyflwyniad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n is na'r targed o 100%.<br><br>Mae'r arolwg staff wedi canfod diddordeb mewn grwpiau staff sydd â ffocws ar grwpiau gan gynnwys LHDTC+, iechyd meddwl a lleiafrif ethnig. Bydd y grwpiau'n dechrau yn 2024. |
| **Gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phobl leol, gan gynnwys pobl ifanc, gwrando ar eu safbwyntiau a gweithredu arnynt.** | DA | Mae canran y cyfranogwyr mewn ymgyngoriadau sy'n credu ein bod wedi bod yn effeithiol o ran cyrraedd ein nod i ganolbwyntio ar ddinasyddion dros y 12 mis diwethaf wedi gwella ychydig i 49.7% yn erbyn targed o 50%.<br><br>Mae lefel yr ymgysylltu â thrigolion, gan ddefnyddio'r platfform cyfathrebu digidol ac ar draws cyfrifon corfforaethol ar y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu ac mae'r targedau wedi cael eu cyrraedd. Mae lefel yr ymgysylltiad ar ymgyngoriadau corfforaethol wedi lleihau ac nid yw'r targed wedi cael ei gyrraedd.<br><br>Nid ydym wedi datblygu Cynulliad Dinasyddion Hinsawdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan bod hyn wedi cael ei ddadflaenoriaethu. |
| **Cynnig mwy o wybodaeth a chyngor ar-lein, ac ar lefel leol, a gwneud yn siŵr y gallwch siarad gyda ni a chlywed gennym yn Gymraeg** | ANFODDHAOL | Nid ydym wedi cyrraedd ein targedau ar gyfer datrysiadau yn ystod galwadau cyntaf na nifer y trafodiadau gan ddefnyddio'r platfform digidol ac mae perfformiad wedi dirywio ers y llynedd. Gostyngodd nifer y trafodiadau ar-lein o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, oherwydd bod y ffigyrau blaenorol yn chwyddedig gan eu bod yn cynnwys y ffurflenni ar-lein a oedd ar gael dros dro i breswylwyr wneud cais am amryw gynlluniau costau byw, yn enwedig taliadau Tanwydd y Gaeaf. Ond mae nifer yr ymweliadau â'r wefan gorfforaethol wedi cynyddu ac wedi cyrraedd y targed, gyda chyfathrebu at ddibenion codi ymwybyddiaeth, tudalennau newydd a phobl yn cael eu cyfeirio at ddefnyddio'r wefan ar gyfer trafodion ar-lein.<br><br>Mae gwaith yn parhau gydag Awen i estyn gwasanaethau cwsmeriaid mewn cyfleusterau cymunedol lleol. Mae cynllun peilot wedi cael ei gynnal yn llyfrgelloedd Cwm Garw a Chwm Ogwr, ond roedd yn dangos bod y galw am y gwasanaeth yn isel.<br><br>Mae staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg wedi cynyddu i 27% ond mae hyn yn dal yn is na'r targed. Dim ond 48% o staff y cyngor sydd wedi cwblhau E-Ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, sy'n fwy na'r llynedd ond yn dal yn is na'r targed. |
| **Helpu clybiau a grwpiau cymunedol i wella a chymryd rheolaeth o'u cyfleusterau a'u diogelu at y dyfodol** | DA | Mae ein cynnydd gyda phrosesau trosglwyddo asedau cymunedol (yn gymysg. Cwblhawyd 7 proses trosglwyddo asedau cymunedol yn erbyn targed o 15 am y flwyddyn, o ganlyniad i rai materion cymhleth a oedd yn ymwneud ag eiddo a chapasiti staff. Ond mae lefel y buddsoddiad mewn trosglwyddo asedau cymunedol wedi mynd y tu hwnt i'n targed gan ein bod wedi gwario ein cyllideb ein hunain yn llawn ac wedi dod ag arian allanol i mewn.<br><br>Mae 395 o bobl wedi cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion yn eu cymunedau gan gydlynwyr cymunedol a 517 gan gyfeirwyr cymunedol lleol. Mae hyn yn llawer uwch na'r targed ar gyfer y rolau newydd. Mae dulliau adeiladu rhwydweithiau cymunedol yn cael eu defnyddio i ddod â phartneriaid a rhanddeiliaid at ei gilydd sy'n cynorthwyo pobl i ddeall gwasanaethau / bylchau. |
| **Dod yn gyngor sy'n oed-gyfeillgar** | DIGONOL | Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cymryd rhan mewn rhaglen Cymru gyfan a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn datblygu ein hasesiad sylfaenol a'n cynllun gweithredu, gan fwrw golwg ar drafnidiaeth, tai, cymorth cymunedol a gwasanaethau iechyd, cyfranogiad cymdeithasol, parch a chynhwysiant cymdeithasol, cyfranogiad dinesig a chyflogaeth, cyfathrebu a gwybodaeth. |

## Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?


- Cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd
- Gyda'n partneriaid, datblygu cynllun gweithredu i gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Trefnu grwpiau staff ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig.
- Datblygu cynllun cyfathrebu, naratif corfforaethol ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Cymryd rhan yn agenda carbon net 2030.
- Dod o hyd i ffyrdd o symud ymlaen gyda chymorth cymunedol yn llyfrgelloedd Cwm Garw a Chwm Ogwr.
- Parhau i adeiladu rhwydweithiau cymunedol a thyfu cyfarfodydd rhwydwaith atal a llesiant mewn partneriaeth gyda BAVO a'r trydydd sector.
- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhwydwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn i oleuo gwaith cynllunio a datblygu mewn perthynas â chynghorau sy'n oed-gyfeillgar.

## Astudiaeth achos
## Uned Dementia Arbenigol

Mae uned dementia arbenigol wedi cael ei datblygu yng Nghanolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr. Gwasanaeth 'allgymorth' a chymunedol ydyw sy'n cynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia i gael mynediad at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt neu y mae'n debygol y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol. Mae'n helpu pobl i osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty neu gael eu derbyn i gartref gofal ar adeg gynnar. Gall y tîm hefyd helpu i gefnogi cynhwysiant cymdeithasol; byw'n dda gyda dementia a chydnerthedd gofalwyr. Gallant hefyd gynnal ymweliadau â'r cartref, gan weithio gyda'r gofalwr a'r person y mae'r gofalwr yn gofalu amdano neu amdani yn eu cartrefi eu hunain. Gall yr Uned gefnogi hyd at 12 o bobl y dydd.



| Amcan Llesiant 7 | SGÔR |
|---|---|
| **Bwrdeistref Sirol lle rydym yn cynorthwyo pobl i fyw bywydau iach a hapus** | **DA** |




Mae'r wybodaeth isod yn rhoi rhagor o fanylion i chi ynglŷn â sut yr ydym yn gwneud ar bob nod dan yr amcan llesiant hwn.

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Gwella llwybrau a chyfleusterau teithio llesol er mwyn i bobl allu cerdded a beicio** | **DIGONOL** | Mae gwaith i adeiladu'r cyfleuster bysiau Metrolink ym Mhorthcawl wedi mynd rhagddo'n dda trwy gydol y flwyddyn ond nid yw wedi agor ar gyfer defnydd masnachol o fewn y flwyddyn fel a fwriadwyd.<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau'n sylweddol yr arian sydd ar gael i weithredu Llwybrau Teithio Llesol ychwanegol, sydd wedi cael effaith ddramatig ar gynlluniau a gyflawnwyd, gyda dim ond 0.4km o lwybrau newydd yn cael eu hychwanegu.<br>Rydym hefyd wedi bod yn ymgynghori ar gynlluniau teithio llesol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys Cilgant Myrddin yng Nghefn Glas. |
| **Cynnig gweithgareddau hamdden a diwylliannol deniadol** | **RHAGOROL** | Mae prosiect adnewyddu Pafiliwn y Grand ar y gweill, gyda thîm rheoli prosiect arbenigol a chaniatâd cynllunio ac adeilad rhestredig wedi'u sicrhau, a gwaith ar ddyluniadau ar y gweill. Bydd y broses dendro yn dechrau yn haf 2024.<br>Mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru wedi cefnogi gwelliannau i'r arlwy hamdden egnïol ar gyfer oedolion hŷn, er mwyn gwella llesiant corfforol / meddyliol. Rydym wedi hyrwyddo'r defnydd o'n cyfleusterau hamdden a'n lleoliadau cymunedol, a rhaglenni gweithgareddau sydd o fudd i oedolion hŷn.<br>Bu'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) yn gweithredu y tu hwnt i'w gapasiti gyda chyfanswm o 1658 o atgyfeiriadau ar draws 20,729 o sesiynau. Cwblhaodd 416 o bobl raglenni 16 wythnos.<br>Cwblhawyd gwaith i adnewyddu llyfrgell Pen-coed. Yn ystod 23-24 bu 26,620 o ymweliadau â llyfrgelloedd, cymerodd 2,361 o blant ran yn sialens ddarllen yr haf, (ychydig yn is na'r targed), a chymerodd bron i 56,000 o blant ran mewn digwyddiadau i blant mewn llyfrgelloedd - ychydig yn is na'r blynyddoedd blaenorol. |

| Nod | Statws | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Gwella cyfleusterau a chyfleoedd chwarae plant** | DIGONOL | Nid yw'r gwaith i adnewyddu ardaloedd chwarae wedi datblygu cyn belled ag a fwriadwyd, gyda chynnydd araf yn ystod y gwaith caffael cymhleth. Mae contractau bellach wedi cael eu dyfarnu ac mae gwaith wedi dechrau ar adnewyddu 22 o ardaloedd chwarae ar draws y fwrdeistref gan weithio gydag aelodau ac Anabledd Cymru.<br>Yn dilyn cynlluniau peilot llwyddiannus yng Ngholeg Cymunedol Y Dderwen ac Ysgol Gyfun Cynffig, mae'r prosiect "Dare2Explore" wedi cael ei gyflwyno i bob ysgol uwchradd.<br>Datblygodd Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr ensemble pres, band chwyth hŷn, ac ensemble llinynnol hyfforddi newydd a bydd yn recriwtio aelodau newydd. |
| **Darparu prydau ysgol am ddim ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant am ddim** | DA | Rhoddwyd prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM) ar waith ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3, 4 a Meithrin.<br>Bu cynnydd pellach yn nifer y plant sy'n cael mynediad at ofal plant a ariennir gan y rhaglen Dechrau'n Deg trwy'r rhaglen ehangu, gyda 272 o blant ychwanegol yn cael mynediad at ofal plant yn 23-24 a chyfanswm o 530 o blant bellach wedi'u cofrestru.<br>Roedd canran y lleoliadau nas cynhelir y barnodd Arolygiaeth Gofal Cymru eu bod o leiaf yn 'dda' yn 76.5% a oedd yn is na'r targed o 100% yr ydym wedi'i osod. |
| **Integreiddio ein gwasanaethau gofal cymdeithasol â gwasanaethau iechyd fel bod pobl yn cael cymorth di-dor** | DIGONOL | Profodd 104 o bobl oedi ar y llwybr gofal cenedlaethol, sy'n fwy na'n targed. Nid yw gweithredu llwybrau 'Rhyddhau i Adfer ac Asesu' wedi arwain at y gwelliant a ragwelir.<br>Rydym wedi cydweithio'n agos gyda'r GIG ar fapio Dementia a chysylltu anghenion o amgylch y Gwasanaeth Dydd Dementia Cymhleth a'r Gwasanaeth Asesu Cof newydd. Mae gwerthusiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi dod i'r casgliad bod y gwasanaeth hwn yn 'rhagorol'.<br>Rydym wedi llwyddo i ddefnyddio'r contract Age Connects Morgannwg gyda'r rôl Cysylltydd Dementia newydd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, a'r contract Clefyd Alzheimer ar gyfer y Gweithwyr Cyswllt Dementia. |
| **Gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy** | DA | Darparwyd 64 o gartrefi ychwanegol, ymrwymwyd i neilltuo dros £11.8 miliwn o Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a sicrhawyd £4m yn ychwanegol o Gyllid Cyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro ar gyfer y flwyddyn.<br>Mae Cynllun Lesio Llywodraeth Cymru wedi cael ei fabwysiadu gyda nifer fach o unedau eisoes yn cael eu defnyddio.<br>Cynhaliwyd asesiad o anghenion o ran tai a chymorth yn ystod y gwaith i ddatblygu'r Strategaeth Dai, ac rydym wedi ymgysylltu â phob LCC a Llywodraeth Cymru i drafod anghenion tai cyffredinol, llety dros dro a chynlluniau tai â chymorth.<br>Mae'r Cynllun Benthyciadau Eiddo Gwag bron â chael ei gwblhau. Sicrhawyd fod 6 eiddo gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto trwy ymyrraeth yr awdurdod lleol. Trwy dargedu'r 20 Uchaf o ran eiddo gwag - mae 2 wedi cael eu gwerthu, 3 yn cael eu hadnewyddu, ac mae proses profiant yn cael eu cwblhau ar gyfer 2. Cyflwynwyd hysbysiadau gorfodi ar 2 eiddo, cwblhawyd erlyniadau llwyddiannus ar 3 gydag erlyniad arall yn yr arfaeth, ac fe gwblhawyd gwaith yn herwydd pallu ar gyfer 1. |

# Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella?

- Agor y cyfleuster bysiau metrolink newydd.
- Dechrau'r broses dendro ar gyfer Pafiliwn y Grand, Porthcawl.
- Gwella'r arlwy hamdden egnïol yn y Cymoedd ar gyfer oedolion hŷn.
- Datblygu cynllun ar gyfer cynllun a strategaeth hamdden hirdymor Pen-y-bont ar Ogwr egnïol.
- Datblygu asesiad newydd o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.
- Cyflawni cam 3 a 4 y gwaith i adnewyddu 22 o ardaloedd chwarae ledled y fwrdeistref.
- Cyflwyno prydau ysgol am ddim i ddisgyblion Blwyddyn 4 (o fis Ebrill 2024) a Blwyddyn 5 (ym mis Mehefin 2024) a Blwyddyn 6 (ym mis Medi 2024).
- Mae cynllun cyflawni wedi cael ei gyflwyno a'i gytuno ar gyfer ehangiad bach a ariennir gan Lywodraeth Cymru (26 o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg ychwanegol) yn 24-25.
- Parhau i ddatblygu rhwydweithiau o dimau amlddisgyblaethol gyda'r GIG
- Fel rhan o raglen 5 mlynedd fwy o lawer, bydd yr £11.8 miliwn a neilltuwyd mewn Grant Tai Cymdeithasol yn darparu tua 119 o gartrefi newydd.
- Bydd y £4 miliwn a sicrhawyd trwy'r Rhaglen Cyllid Cyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP) yn ychwanegu tua 33 o gartrefi fforddiadwy.

## Astudiaeth achos Rhaglen Dechrau'n Deg

Trwy'r rhaglen graidd, mae Dechrau'n Deg yn darparu pedair elfen allweddol – ymweliadau iechyd estynedig, cymorth rhianta, datblygiad iaith cynnar a chynnig gofal plant o safon uchel. Mae wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus mewn ardaloedd penodol ers 2008. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, mae Cam Dau Dechrau'n Deg – cynnig i ehangu mynediad at ofal plant – wedi cael ei estyn i 19 o ardaloedd yn rhagor ledled y fwrdeistref sirol. Mae hyn wedi creu mwy na 200 o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg ychwanegol, gan gynyddu cyfanswm y lleoedd a oedd ar gael ym mis Mawrth 2024 i 530.



## Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd



Fe ddechreuom ni gynllunio ar gyfer gweithredu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM) ym mis Medi 2021, yn dilyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru. Roedd angen llawer o waith i sicrhau bod gan ysgolion y cyfleusterau cegin a bwyta cywir yn barod ar gyfer y cam cyntaf o fis Medi 2022. Mae cyllid grant wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ac wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi uwchraddiadau ffisegol i sawl ysgol. Cyflwynwyd prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd ar gyfer disgyblion Derbyn ym mis Medi 2022 ac fe'u cyflwynwyd ar gyfer gweddill y grwpiau blwyddyn o'r Meithrin i Flwyddyn 6 yn raddol rhwng mis Ebrill 2023 a mis Medi 2024. Mae hyn bellach yn golygu y gall pob disgybl o oedran ysgol gynradd gael pryd o fwyd poeth, maethlon amser cinio, yn rhad ac am ddim.

# Sut mae'r cyngor yn defnyddio ei adnoddau?

Rydym wastad wedi gorfod adrodd ar ba mor dda yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau. Er enghraifft, dweud wrth Archwilio Cymru am ein gwariant, ein gweithlu a'n hadeiladau. Tan yn ddiweddar, nid oedd gennym broses ar gyfer adolygu sut yr ydym yn rheoli ein holl adnoddau gwahanol. Er mwyn ein helpu i ysgrifennu'r adroddiad hwn, fe wnaethom ddatblygu proses i fwrw golwg ar y canlynol:

- Cyllid a rheoli risg,
- Comisiynu a chaffael,
- cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad,
- cynllunio'r gweithlu, a
- rheoli asedau.

# Er mwyn ffurfio ein barnau, fe ddefnyddiom ni'r canlynol:

- dangosyddion perfformiad e.e. lefelau swyddi staff gwag a chynnal a chadw adeiladau,
- tystiolaeth ar gyflawni ein prosiectau a'n cynlluniau gwella,
- adborth gan gwsmeriaid, staff ac undebau llafur, a
- barn rheoleiddwyr e.e. adroddiad Archwilio Cymru ar gynllunio'r gweithlu

# Fe wnaethom ofyn cwestiynau yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys:

- A ydym yn canolbwyntio ar atal, nid dim ond unioni pethau pan fyddant yn mynd o chwith?
- A ydym yn creu cynlluniau hirdymor cryf?
- A ydym yn rhannu syniadau, cynlluniau ac adnoddau gyda sefydliadau partner?
- A ydym yn creu cysylltiadau ac yn gwneud pethau'n gyson ar draws y cyngor?
- A ydym yn cynnwys y gymuned a chwsmeriaid mewn cynlluniau a phenderfyniadau allweddol?

Fe wnaethom gyflwyno'r canfyddiadau i gynghorwyr a wnaeth graffu arnynt, eu gwirio a gofyn cwestiynau, a defnyddio'r un raddfa farnu a oedd ym amrywio o ragorol i anfoddhaol.

# Barn ar y cyfan

| | | |
|---|---|---|
| Defnyddio adnoddau | DIGONOL | Am y drydedd flwyddyn yn olynol, mae ein defnydd o adnoddau'n ddigonol. Mae rhai pethau wedi gwella – rydym wedi gweithredu ein cynllun gwella rheoli perfformiad, wedi gwella cydymffurfiaeth statudol ein adeiladau ym maes rheoli asedau, ac wedi gwreiddio a chyfleu'r Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Cyflawni a'r Fframwaith Perfformiad newydd.<br><br>Mae pethau eraill wedi gwaethygu - oherwydd cynnydd yn y galw, prisiau uwch a'r sefyllfa ariannol sylweddol yr ydym yn ei hwynebu. Rydym wedi gorwario'n sylweddol ar ein cyllideb ac wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli'r gyllideb. Mae'r sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu, a'r risg i'n cynaliadwyedd ariannol, yn cael effaith ar y gweithlu ar draws timau corfforaethol a staff a rheolwyr ar draws ein holl gyfarwyddebau, gyda swyddi gwag a phroblemau capasiti cynyddol. Rydym wedi cyflwyno cynllun 5 pwynt i geisio ein helpu i arbed arian.<br><br>Mae gennym fframweithiau cryf a phrosesau cadarn ar gyfer rheoli adnoddau o ddydd i ddydd, gyda modelau gweithio clir a chytunedig a pherthnasoedd gweithio cryf rhwng timau corfforaethol a chyfarwyddiadau. Ond bydd cynllunio ar gyfer y tymor hwy, bod yn rhagweithiol a gwella yn gryn her gyda'r materion o ran adnoddau yr ydym yn eu hwynebu. |



# Barnau fesul thema

Mae ein barn ar y cyfan yn ystyried y defnydd o adnoddau o bob math. Mae gennym hefyd farn benodol ar gyfer pob math o adnoddau, i'n helpu gyda'n proses o gynllunio ar gyfer gwella.

| | | |
|---|---|---|
| Cyllid | DIGONOL | Mae Cynllunio ariannol yn ddigonol. Mae barnau gan reoleiddwyr yn gadarnhaol ar y cyfan, rydym yn mantoli ein cyllideb bob blwyddyn, ac mae gennym Ddatganiadau Cyfrifon diamod gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae fframwaith ariannol y cyngor yn gadarn, gyda threfniadau llywodraethu cryf sy'n llywio penderfyniadau'r Cyngor ynglŷn â'r gyllideb a gwariant. Mae'r sefyllfa ariannol yn cael ei disgrifio'n fanwl mewn adroddiadau rheolaidd. Mae gennym lefel uchel o gydymffurfiaeth â Chod, Egwyddorion a Safonau Rheolaeth Ariannol CIPFA. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae sefyllfa ariannol y Cyngor wedi dod yn fwy o her, gyda chynnydd uwch na'r disgwyl mewn cyflog / prisiau a phwysau ar wasanaethau. Eleni rydym wedi gorwario'n sylweddol ar ein cyllideb ac wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli'r gyllideb gan greu risg i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor. |
| Cynllunio corfforaethol | DA | Mae Cynllunio corfforaethol yn dda. Mae'r Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei wreiddio'n fwyfwy, ac mae'n rhan o hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant i reolwyr, gyda gweithgareddau cyfathrebu ar y cynllun a'r blaenoriaethau'n cael eu cynnal yn hydref 2023. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei ategu gan Gynllun Cyflawni 1 flwyddyn. Fe'i hategir hefyd gan Gynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau sydd i gyd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Datblygwyd fframwaith perfformiad wedi'i ddiweddaru hefyd. Yn yr arolwg staff ym mis Chwefror 2024, mae 70% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn ymwybodol o flaenoriaethau CBSP, i fyny o 68% yn 2022. |
| Rheoli risg | DA | Mae Rheoli risg yn dda. Mae ein Polisi Rheoli Risg Corfforaethol wedi'i ddiweddaru wedi cael ei wreiddio yn yr Awdurdod. Mae adroddiadau a'r broses adrodd ar gyfer risg yn syml ac yn hygyrch, gan gynnwys i aelodau. Trwy adolygiad gan y gwasanaeth archwilio mewnol o drefniadau Rheoli Risgiau Corfforaethol y Cyngor, a gwblhawyd ym mis Mawrth 2024, rhoddwyd barn Sicrwydd Rhesymol a bydd yr argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu gweithredu yn 2024/2025. |
| Comisiynu a Chaffael | DIGONOL | Mae comisiynu a chaffael yn ddigonol. Mae Caffael yn dda. Rydym wedi gwreiddio'r Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol newydd, y cynllun cyflawni a'r fersiwn wedi'i diweddaru o Reolau'r Weithdrefn Gontractau wedi'u diweddaru. Rydym wedi cynnal sesiynau hyfforddi i helpu rhanddeiliaid i ddeall cyfrifoldebau a gofynion. Rydym wedi gwreiddio'r cyflog byw gwirioneddol yn ein proses dendro ac mae gennym gronfa ddata o gyflenwyr achrededig. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Cwmpas a chyflenwyr ynghylch cynllunio ar gyfer lleihau carbon. Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'n prosesau gan gynnwys cap ar brisiau ac awdurdodiadau ar gyfer gwario ar gardiau prynu. Mae ein barn yn ddigonol yn seiliedig ar yr angen am ddull gwell a mwy cyson o gomisiynu. |
| Rheoli perfformiad | DIGONOL | Mae ein dull Rheoli perfformiad yn ddigonol ond rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn ystod y 18 mis diwethaf. Rydym wedi datblygu cynllun corfforaethol 5 mlynedd newydd a chynllun cyflawni 1 flwyddyn a fframwaith perfformiad i'w hategu. Rydym wedi penodi rheolwr perfformiad corfforaethol newydd. Rydym wedi gwella trefniadau ar gyfer ansawdd a chywirdeb data. Mae adroddiadau ar berfformiad i bwyllgorau craffu wedi cael eu gwella gyda chrynodebau a graffiau. Digonol yw ein barn ar y cyfan am bod angen gwelliannau o hyd i'n diwylliant herio, rolau, cyfrifoldebau ac amseroldeb gwybodaeth, cywirdeb data a defnydd o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau. |
| Cynllunio'r gweithlu | DIGONOL | Mae cynllunio'r gweithlu yn ddigonol. Mae Rheoli'r gweithlu yn dda. Mae adborth gan gyflogeion, rheolwyr, cynrychiolwyr undebau llafur ac o archwiliadau mewnol yn gadarnhaol. Cynorthwyir rheolwyr i ymdrin yn effeithiol â materion pobl trwy gymorth gan y gwasanaeth Adnoddau Dynol / Datblygu Sefydliadol. Rydym yn datblygu mwy o ffocws ar gynllunio'r gweithlu yn y tymor hwy a gweithgarwch ymgysylltu a chadw yn ogystal â chefnogi gwasanaethau sy'n gorfod adnabod gostyngiadau mewn staff. Digonol yw'r farn ar y cyfan ar ôl asesu a hynny'n seiliedig ar yr angen am gapasiti ychwanegol ymhlith rheolwyr ac yn y tîm Adnoddau Dynol, ffocws cynyddol ar gynllunio'r gweithlu'n strategol ar draws y cyngor a fydd yn ystyried anghenion o ran y gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth ymhellach i'r dyfodol. |
| Rheoli asedau | DIGONOL | Mae rheoli asedau yn ddigonol. Mae'r polisi Rheoli asedau yn dda gydag ymgysylltiad da gan gyfarwyddiaethau. Mae'r strategaeth rheoli asedau yn ddeinamig ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gyda gwasanaethau / partneriaid. Digonol yw'r farn ar y cyfan, gan bod angen i ni fynd i'r afael â'r heriau parhaus o ran adnoddau sy'n ein hatal rhag cynllunio'n strategol, ac sy'n arwain at ddull adweithiol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi datblygu a chwblhau 4 ased Carbon Sero Net newydd ac wedi parhau i chwilio am ffyrdd o leihau carbon a'r defnydd o ynni ar draws yr ystâd gyfan. Mae ein rheolaeth ar Gydymffurfiaeth Statudol ein Hadeiladu wedi gwella, gyda Chydymffurfiaeth o ran y 5 Mawr bellach ar 94%. Rydym hefyd wedi gwella cydweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus ac wedi parhau â'n gwaith ar y System Rheoli Gwaith Integredig (IWMS). |



# Meysydd i'w gwella

- Parhau i wella dealltwriaeth ehangach, yn fewnol a'r tu allan i'r Cyngor, am gyllideb y Cyngor, gan gynnwys sut y caiff ei phennu, o ble y daw'r cyllid a sut mae'r cyllid yn cael ei wario.
- Gwella prosesau i adnabod cynigion ar gyfer arbedion mewn blynyddoedd yn y dyfodol.
- Ymgynghori ehangach, gan wella ymgysylltiad, i gyfrannu at y broses o bennu'r gyllideb.
- Monitro'r gyllideb yn fanylach, gan gynnwys mynd at wraidd materion, i dargedu meysydd allweddol lle ceir gorwariant.
- Adolygu trefniadau gweithio gyda'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllidebol (BREP) a'i Gylch Gorchwyl.
- Datblygu dull o gyfleu gwybodaeth am ein blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol yn well.
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i graffu ar yr Asesiad Risg Corfforaethol.
- Safoni adroddiadau risg ar draws cyfarwyddiaethau ac integreiddio adroddiadau risg â pherfformiad a chyllid ar draws pob maes gwasanaeth.
- Ystyried a ydym yn rhy amharod i dderbyn risg ar lefel gorfforaethol.
- Asesu effaith y cap ar brisiau caffael a'r newid i awdurdodiadau ar gyfer gwario ar gardiau prynu.
- Cyflwyno sesiynau hyfforddiant caffael ychwanegol i helpu rhanddeiliaid i ddeall cyfrifoldebau a gofynion.
- Diweddaru ein strategaeth gaffael, y cynllun gweithredu a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn seiliedig ar ddeddfwriaeth newydd Llywodraeth y DU.
- Datblygu dull gwell a mwy cyson o gomisiynu ar draws cyfarwyddiaethau, yn enwedig wrth ddadansoddi ac adolygu.
- Datblygu diwylliant herio cryfach ar gyfer defnyddio gwybodaeth am berfformiad.
- Egluro rolau a chyfrifoldebau o ran gwybodaeth am berfformiad a gwella amseroldeb adroddiadau.
- Gwella cywirdeb data sy'n ymwneud â gwybodaeth am berfformiad trwy archwiliadau o Ddangosyddion Perfformiad.
- Gwella ein defnydd o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau i oleuo penderfyniadau.
- Datblygu'r broses o gynllunio'r gweithlu'n strategol a hynny'n cael ei ategu trwy gyflwyno canllawiau cynllunio a fydd o gymorth i gynllunio yn y tymor hwy, mewn modd cyson ar draws y cyngor, yn gyson â'r broses cynllunio ariannol.
- Mynd i'r afael â materion capasiti uwch reolwyr ac mewn mannau eraill a goleuo trafodaeth genedlaethol.
- Mynd ati ymhellach i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol wedi'u cyd-ddylunio ac sy'n canolbwyntio ar wasanaethau Adnoddau Dynol rhagweithiol.
- Parhau i awtomeiddio a symleiddio prosesau Adnoddau Dynol.
- Cyflwyno datblygiad Arweinyddiaeth a Chydnerthedd.
- Cefnogi a goleuo gwaith Llywodraeth Cymru ar y fframwaith dilyniant ar gyfer gofal cymdeithasol i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn telerau ac amodau.
- Mabwysiadu'r Cynllun rheoli asedau strategol newydd.
- Parhau i wneud gwelliannau yn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw a chydymffurfiaeth statudol adeiladau.
- Caffael a gweithredu'r System Rheoli Gwaith Integredig (IWMS) i wella gwybodaeth, data a meincnodi mewn perthynas ag asedau.
- Gwella capasiti'r gweithlu rheoli asedau. Byddwn hefyd yn cydweithio'n agos gyda'r tîm datgarboneiddio i wella ein dull rheoli asedau.

# Pa mor dda yw trefniadau llywodraethu'r cyngor?

Mae sefydliadau sydd â threfniadau llywodraethu da yn defnyddio prosesau penderfynu eglur ac yn cyfathrebu'n agored am yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn gweithio'n dda gyda'u rhanddeiliaid, yn rheoli'r risgiau y maent yn eu hwynebu, ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu hasedau.

Rydym wastad wedi gorfod adrodd ar ein trefniadau llywodraethu, a hynny wrth Archwilio Cymru. Ceir proses glir ar gyfer datblygu 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol' (DLlB) sydd wedi bodoli ers blynyddoedd lawer. Mae'r wybodaeth isod yn crynhoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24.

## Beth yw ein barn?

| | |
|---|---|
| **Llywodraethu** | **DA** |

Mae ein trefniadau llywodraethu yn dda, ac maent yn gweithio'n dda.



# Gwneud penderfyniadau

Mae ein Fframwaith Llywodraethu, y Cod Llywodraethu Corfforaethol, yn esbonio sut yr ydym yn gweithio, sut yr ydym yn atebol a sut y gwneir penderfyniadau. Yn 2022 fe wnaethom ddatblygu cyfansoddiad newydd gyda chanllaw syml i helpu aelodau'r cyhoedd i'w ddeall. Trwy'r dogfennau hyn (ynghyd â Chod Ymddygiad yr Aelodau, y Pwyllgor Safonau a rôl Archwilio Mewnol) mae'r Cyngor yn gweithredu ag uniondeb, gwerthoedd moesegol ac o fewn ei bwerau cyfreithiol.

Caiff trefniadau llywodraethu eu hadolygu bob blwyddyn a'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB), sy'n cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym egwyddorion llywodraethu ac arferion rheoli da. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio ar draws y cyngor i gyd i sicrhau ein bod yn ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. Caiff y trefniadau sydd gan y Cyngor ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol eu nodi isod.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cod Llywodraethu Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** | Mae Cod Llywodraethu'r Cyngor yn darparu datganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y mae'r Cyngor yn bodloni ac yn dangos cydymffurfiaeth ag egwyddorion llywodraethu CIPFA. |
| 2 | **Y Fframwaith Llywodraethu** | Tanategir Cod y Cyngor gan Fframwaith Llywodraethu sy'n cynnwys polisïau, gweithdrefnau, ymddygiadau a gwerthoedd sy'n sail i lywodraethu a rheoli'r Cyngor. |
| 3 | **Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau Llywodraethu'r Cyngor, ynghyd ag adnabod meysydd ffocws a meysydd i'w gwella yn y dyfodol. Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus i ddynodi i ba raddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol. Mae'n nodi'r meysydd hynny y nodwyd bod angen eu gwella yn dilyn hunanasesiad. |
| 4 | **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n cael eu monitro drwy Gynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

Adnabuwyd nifer o faterion arwyddocaol yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor 2022-23, i weithio arnynt yn ystod 2023-24, felly yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud gwelliannau gan gynnwys -

- Datblygu gweithgareddau cynllunio'r gweithlu, y mae rhai ohonynt yn canolbwyntio ar feysydd lle ceir heriau penodol, er enghraifft gofal cymdeithasol ac arlwyo mewn ysgolion. Mae eraill yn fwy cyffredinol, fel chwilio am ffyrdd newydd o weithio a datblygu rhaglen cymorth i gyflogeion newydd.
- Gwelliannau i Reoli asedau gan gynnwys gwaith i wella cydymffurfiaeth statudol y Cyngor ym meysydd cydymffurfio'r "5 Mawr".
- Gwelliannau i'r gwasanaeth Grant Cyfleusterau i'r Anabl gan gynnwys canllawiau gweithdrefn newydd, gweithio gyda syrfewyr allanol i wneud cynnydd gyda cheisiadau presennol am grantiau, cyflwyno system feddalwedd newydd a phrosesau tendro gwell.
- Gwelliannau i'n prosesau rheolaeth ariannol yn y tymor canolig a hir gan gynnwys darparu hyfforddiant ar y Strategaeth Gyfalaf i'r holl aelodau, hyfforddiant i ysgolion ar y broses o gau cyfrifon, adolygiadau ac adroddiadau rheolaidd ar lefel y cronfeydd wrth gefn, adroddiadau chwarterol ar y gyllideb a monitro cynigion ar gyfer gostyngiadau yn y gyllideb.
- Darparu hyfforddiant ychwanegol i'r Aelodau i gefnogi eu rôl o ran sicrhau rheolaeth ariannol briodol ar y Cyngor, gan gynnwys ar Reoli Trysorlys a Chronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi.
- Gweithredu ein cynllun gwella rheoli perfformiad a gwreiddio'r Cynllun Corfforaethol, Cynllun Cyflawni, Fframwaith Perfformiad a mecanweithiau adrodd newydd. Mae gwelliannau i ansawdd a chywirdeb data yn mynd rhagddynt yn barhaus.
- Dechreuwyd adolygiad o'r strategaeth Datgarboneiddio 2030 yn unol â newidiadau Llywodraeth Cymru.



# Gwrando ar farn pobl eraill

Mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau i holl drigolion Pen-y-bont ar Ogwr. Mae rhai o'n gwasanaethau yn gyffredinol - yn cael eu defnyddio gan yr holl drigolion - fel ffyrdd a phalmentydd, a gwastraff ac ailgylchu. Pan ydym yn datblygu, yn adolygu ac yn newid y gwasanaethau hyn, mae angen i ni geisio siarad gyda holl boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr i'n helpu i benderfynu beth i'w wneud. Mae gennym ystod o ddulliau gwahanol ar gyfer gwneud hyn, o ymgyngoriadau ffurfiol ar newidiadau mawr, i sesiynau galw heibio a thrafodaethau cyhoeddus, a'r gwaith ymgysylltu rheolaidd o ddydd i ddydd ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Mae gwasanaethau eraill yn fwy arbenigol - ac yn cael eu defnyddio gan niferoedd llai o drigolion - fel cludiant i'r ysgol a gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu neu bobl ifanc sy'n gadael gofal. Pan fyddwn yn datblygu, yn adolygu ac yn newid y gwasanaethau hyn, mae angen i ni geisio siarad gyda'r bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hynny a'u teuluoedd i'n helpu i benderfynu beth i'w wneud. Mae gennym ystod o ddulliau ar gyfer gwneud hyn, o sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu, i gydgynhyrchu'r gwasanaethau hynny'n uniongyrchol gyda'r defnyddwyr a'u teuluoedd.

Yng ngwanwyn 2023, fe wnaeth Archwilio Cymru adolygu'r ffordd yr ydym yn defnyddio barn defnyddwyr gwasanaethau i oleuo penderfyniadau. Cyhoeddwyd yr adolygiad ym mis Ebrill 2024 a daeth i'r casgliad, 'Nid yw gwybodaeth am berfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a symud ymlaen tuag at y deilliannau a fwriadwyd, gan gyfyngu ar eu gallu i ddeall effaith gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor.' Mae gennym gynllun i wella hyn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod gan weithio gyda Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol y Cyngor ac adrodd wrtho.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cwblhau ystod enfawr o weithgareddau i ddeall a defnyddio safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, a barn ein rheoleiddwyr. Caiff y prif rai eu crynhoi isod.

# Ymgynghori ac ymgysylltu

Mae ymgyngoriadau corfforaethol yn cael eu hyrwyddo'n ddwyieithog i sianeli'r Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol, yn cael eu rhannu trwy fwletinau wythnosol i drigolion a negeseuon wythnosol i staff trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Rhennir hyd at dri ymgynghoriad y flwyddyn gyda'n panel dinasyddion i godi ymwybyddiaeth a hybu cyfranogiad. Cynhelir sesiynau ymgysylltu wyneb-yn-wyneb lle y bo angen ac mae ein cyngor Ieuenctid yn ymwneud ag ymgyngoriadau perthnasol.

Fe wnaethom ymgynghori ar nifer o'n strategaethau ac adroddiadau allweddol, er enghraifft adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ein Hunanasesiad, ein Cynllun Strategol 3 Blynedd - Gofal Cymdeithasol i Blant, Polisi'r Strategaeth Dai, y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi – a oedd yn cynnwys sesiynau galw heibio wyneb-yn-wyneb (gan gynnwys y Panel y Dinasyddion), ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol (gan gynnwys sesiynau galw heibio cyhoeddus a grŵp ffocws gydag ysgol) – (gan gynnwys y Panel Dinasyddion).

Mae strategaethau allweddol eraill yn cael eu cydgynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Er enghraifft, cydgynhyrchwyd y strategaeth rhianta corfforaethol gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, a wnaeth arwain lansiad y strategaeth ym mis Mai 2023 hefyd. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda Cwmpas i gydgynhyrchu'r strategaeth gofalwyr.

Fe wnaethom hefyd ymgynghori ar rai newidiadau arfaethedig sylweddol i'r ffordd y mae'r Cyngor neu ein gwasanaethau'n gweithio. Rhai o'r prif ymgyngoriadau yn 2023/24 oedd -

- Cafodd ein Cynllun 20mya ei brofi ym mis Ebrill 2023, i ystyried pa ffyrdd y dylid eu heithrio o'r terfyn cyflymder is. O ganlyniad, ychwanegwyd nifer fach o ffyrdd at restr yr eithriadau o'r terfyn cyflymder a thynnwyd nifer tebyg oddi arni, yn seiliedig ar y rhesymau cadarn a roddwyd gan drigolion y Fwrdeistref.
- Roedd baeddu gan gŵn yn destun ymgynghoriad ym mis Ebrill 2024, a ninnau'n cynnig adnewyddu ein Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (GDMAC) rheoli cŵn lle gellir rhoi dirwy i bobl sy'n mynd â chŵn am dro os na fyddant yn codi baw eu hanifeiliaid anwes mewn mannau cyhoeddus. Cafwyd cefnogaeth eang i'r cynigion gan gynghorau tref, trigolion a grwpiau gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Cŵn a'r RSPCA, gyda thros 379 o ymatebion i'r arolwg a 77 o sylwadau ar sianeli'r cyfryngau cymdeithasol. O ganlyniad i'r gymeradwyaeth gadarnhaol hon mae'r GDMAC bellach yn symud yn ei flaen.
- Cafodd newidiadau i Ganolfannau Ailgylchu Cymunedol eu profi rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, pan ofynnwyd i'r cyhoedd am eu barn ynglŷn â Chanolfannau Ailgylchu Cymunedol, eu defnydd ohonynt a'r posibilrwydd o gau pob safle un diwrnod yr wythnos. Roedd yr adborth gan y cyhoedd yn gymysg gyda 56% o'r cyhoedd a ymatebodd yn dweud nad oeddent yn cytuno y dylid cau safleoedd y Canolfannau Ailgylchu Cymunedol tra bo 44% yn cytuno. Yn y pen draw, fe wnaeth y Cabinet ystyried barn y cyhoedd ochr yn ochr ag angen yr awdurdod i greu'r arbedion ac fe gymeradwyodd y cynnig i'w cau un diwrnod yr wythnos sydd wedi'i weithredu ers hynny.
- Cafodd Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Maesteg ei brofi trwy ymgynghori (gan gynnwys sesiynau ymgysylltu wyneb-yn-wyneb) ym mis Medi / Hydref 2023, i asesu a oedd y cynllun yn ddigon cadarn i gyrraedd potensial economaidd llawn y dref a chwmpasu llesiant cymunedol a hanes diwylliannol. Roedd preswylwyr a busnesau'n gadarnhaol ynglŷn â'r cynlluniau a'r gefnogaeth barhaus ar gyfer twf busnes a gwelliannau manwerthu trwy'r cyllid grant a'r cyngor. Roeddent i gyd yn gadarnhaol ynglŷn â Neuadd y Dref Maesteg ac roeddent yn croesawu agor y cyfleuster adnewyddedig hwn. Gofynnodd nifer am wneud gwybodaeth ynghylch treftadaeth yn fwy amlwg i ddenu twristiaeth i Gwm Llynfi. Mae'r sylwadau hyn ac eraill bellach yn cael eu hystyried.
- Gofynnwyd i'r cyhoedd am eu barn ynglŷn â Strategaeth Adfywio'r Cymoedd a chynlluniau ar gyfer gwelliannau yn y Cymoedd yn y dyfodol (gan gynnwys sesiynau ymgysylltu wyneb-yn-wyneb) ym mis Ionawr / Chwefror 2024. Roedd trigolion yn awyddus i weld gwelliannau i dir y cyhoedd, gan gynnwys parciau, mannau agored a meysydd parcio. Cafwyd sgyrsiau am gysylltiadau trafnidiaeth, gan gynnwys teithio llesol a chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Mae hyn i gyd yn cael ei ystyried i'w gynnwys yn y Strategaeth, gan gynnwys sut y bydd yn cael ei gyflawni a thros ba raddfa amser.
- Roedd Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Porthcawl yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth / Ebrill 2024 (gan gynnwys sesiynau ymgysylltu wyneb-yn-wyneb). Roedd trigolion a busnesau'n gadarnhaol ynglŷn â chynlluniau ar gyfer canol y dref a gwaith adfywio ym Mhorthcawl. Roedd rhywfaint o bryder ynghylch parcio, felly rydym wedi ymrwymo i adolygu polisïau parcio. Cafodd cynlluniau i hyrwyddo arlwy canol y dref ledled y glannau ac i geisio cynyddu nifer yr ymwelwyr, gyda datblygiad Cyswllt Stryd y Doc, dderbyniad da hefyd.
- Roedd ein hymgynghoriad ar y Gyllideb Flynyddol yn cynnwys ymgysylltu â'r Panel Dinasyddion a sesiynau ymgysylltu wyneb-yn-wyneb ym mis Ionawr / Chwefror 2024. Gofynnwyd i'r ymatebwyr am egwyddorion cyllidebol, lleihau / cau gwasanaethau, codi taliadau newydd, adolygu asedau, contractau allanol ar gyfer gwasanaethau hamdden, treth y cyngor a ffocws ar y dinesydd. Roedd dros 80% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddorion cyllidebol. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn ac argymhellion pwyllgorau craffu, cafodd nifer o gynigion ar gyfer lleihau'r cyllideb a oedd yn werth cyfanswm o £2.994 miliwn eu dileu neu eu diwygio, gan gynnwys gostyngiad o 3% i gyllidebau dirprwyedig ysgolion (o 5%).

# Cwynion a chanmoliaeth

Mae gennym broses glir a chytunedig ac iddi ddau gam ar gyfer ymdrin â chwynion:

## Cam Cwynion Anffurfiol

Dylid ymdrin â chwynion anffurfiol yn gyflym a, lle y bo hynny'n bosibl, yn anffurfiol. Mae'n cynghori cwsmeriaid i gysylltu â'r swyddfa sy'n gyfrifol am y gwasanaeth i roi cyfle i ddatrys y broblem. Mae cwynion anffurfiol yn cael eu logio yn y swyddfa Cwynion Corfforaethol ac rydym yn adrodd arnynt bob chwarter wrth yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn 2023/24 cawsom y cwynion anffurfiol canlynol:

| | Nifer | Wedi'u Datrys | Wedi'u Cadarnhau | Wedi'u dirwyn i ben / tynnu'n ôl | Yn mynd rhagddynt |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gweinyddu Budd-daliadau** | 6 | 5 | 0 | 1 | 0 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant** | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| **Cyfleusterau Cymunedol** | 15 | 13 | 0 | 2 | 0 |
| **Ymdrin â chwynion** | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| **Addysg** | 23 | 20 | 0 | 3 | 0 |
| **Yr Amgylchedd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyllid a'r Dreth Gyngor** | 33 | 29 | 4 | 0 | 0 |
| **Tai** | 22 | 22 | 0 | 0 | 0 |
| **Cynllunio / Rheoli Adeiladu** | 16 | 16 | 0 | 0 | 0 |
| **Ffyrdd a Thrafnidiaeth** | 48 | 41 | 3 | 4 | 0 |
| **Amrywiol/Eraill** | 48 | 36 | 7 | 5 | 0 |
| **Gwastraff a Sbwriel** | 60 | 56 | 3 | 1 | 0 |

## Cam Cwynion Ffurfiol

Gellir gwneud cwynion ffurfiol trwy'r e-bost, dros y ffôn, trwy lythyr neu ar ffurflen gwyno ar-lein. Mae'r holl gwynion ffurfiol ac eithrio ysgolion a'r gwasanaethau cymdeithasol (sydd â'u gweithdrefnau statudol eu hunain) yn cael eu derbyn, eu logio a'u cydnabod yn ganolog gan y Tîm Gwybodaeth o fewn 5 niwrnod gwaith. Anfonir y cwynion hyn at Bennaeth Gwasanaeth sy'n penodi uwch swyddog i ymchwilio i'r gŵyn ac ymateb yn uniongyrchol o fewn 20 niwrnod gwaith. Mae'r Tîm Gwybodaeth yn cael copi o'r ymateb. Rydym yn monitro nifer y cwynion, yr amser i ymateb, categori'r gŵyn, ac o ble yn y Fwrdeistref y maent yn dod. Mae'r Tîm Gwybodaeth wedi derbyn, logio, cydnabod a chyfeirio cyfanswm o 67 o gwynion ffurfiol ar gyfer y cyfnod 2023/24:

| | Nifer | Wedi'u Datrys | Wedi'u Cadarnhau | Wedi'u dirwyn i ben / tynnu'n ôl | Yn mynd rhagddynt |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gweinyddu Budd-daliadau** | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant** | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfleusterau Cymunedol** | 4 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| **Ymdrin â chwynion** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Addysg** | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 |
| **Yr Amgylchedd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyllid a'r Dreth Gyngor** | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 |
| **Tai** | 14 | 13 | 0 | 1 | 0 |
| **Cynllunio / Rheoli Adeiladu** | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 |
| **Ffyrdd a Thrafnidiaeth** | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 |
| **Amrywiol/Eraill** | 10 | 6 | 3 | 0 | 1 |
| **Gwastraff a Sbwriel** | 4 | 3 | 0 | 1 | 0 |

Caiff cwynion y gwasanaethau cymdeithasol eu monitro ar wahân ac adroddir arnynt wrth y Cabinet bob mis Tachwedd / Rhagfyr. Mae'r adroddiad diweddaraf ar gael yma.

Ar hyn o bryd nid oes gennym ffordd o adolygu ein holl gwynion corfforaethol i weld pa effaith y maent wedi'i chael ar ein gwasanaethau.

# Barn rheoleiddwyr

Mae ymgysylltu â rheoleiddwyr yn gryf ac yn systematig. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng rheoleiddwyr ac uwch swyddogion yn y Cyngor i drafod gwaith rheoleiddwyr a chynlluniau gwella'r cyngor. Rydym yn profi ein cynnydd yn rheolaidd yn erbyn barn ac argymhellion ein rheoleiddwyr, trwy offeryn tracio rheoleiddiol. Adroddir ar hwn wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob mis Ionawr a mis Gorffennaf. Cyhoeddwyd yr adolygiadau newydd canlynol yn 2023/24.

Ym mis Mehefin 2023, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ac Estyn Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nododd yr arolygiad nifer o feysydd lle ceir ymarfer cadarnhaol a nifer o feysydd i'w gwella. Datblygwyd cynllun gweithredu amlasiantaeth ym mis Medi 2023. Yn y Cyngor mae cynnydd yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (BDRh) Cwm Taf Morgannwg.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru 8 arolygiad o wasanaethau rheoleiddiedig. Mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, bu 5 arolygiad o sefydliadau preswyl rheoleiddiedig a gwasanaethau cymorth cartref. Adnabu'r holl arolygiadau fod safon dda o ofal a chymorth ar draws y gwasanaethau, fod meysydd gwella blaenorol wedi cael sylw ac ni nodwyd unrhyw hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer 2023/24. Fodd bynnag, nodwyd 1 maes ar gyfer gwella, sydd wrthi'n cael sylw.

Mewn Gofal Cymdeithasol i Blant cynhaliwyd 3 arolygiad rheoleiddiol, sef 2 mewn sefydliadau preswyl ac 1 gyda Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr. Ar gyfer y sefydliadau preswyl, amlygwyd cryfderau allweddol ac ni nodwyd unrhyw hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth, gyda dim ond dau faes i'w gwella yn cael eu hadnabod, sydd wrthi'n cael sylw.

Ym mis Tachwedd 2023, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolygiad o Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd yr arolygiad yn cydnabod y cyd-destun presennol, bod 'nifer y plant sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth yn fwy na'r gofalwyr maeth sydd ar gael' ond amlygodd nifer o gryfderau allweddol. Nododd 8 maes i'w gwella o ran paru plant ag anghenion cymhleth, trefniadau gofal diogel, amseroldeb ymatebion i honiadau a gwelliannau i systemau i sicrhau bod tystiolaeth o bolisïau a gweithdrefnau yn cael ei dangos yn ymarferol. Caiff cynlluniau gweithredu eu monitro trwy'r cyfarfod Pwysau Gofal Cymdeithasol i Blant pythefnosol a chyfarfodydd rheoli perfformiad chwarterol.

# Barn Staff ac Undebau Llafur

Mae gennym drefniadau partneriaeth gymdeithasol cadarnhaol ac adeiladol. Rydym yn gweithio gydag Undebau Llafur cydnabyddedig, gyda threfniadau clir a rheolaidd ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu. Mae cynrychiolwyr lleol a rhanbarthol Undebau Llafur yn cwrdd â swyddogion Adnoddau Dynol yn fisol. Doir â swyddogion eraill i mewn yn ôl yr angen, er enghraifft y Prif Weithredwr ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol a'r Swyddog Adran 151 ar y gyllideb. Mae dau aelod o'r Cabinet yn mynychu bob deufis, fel bod cynrychiolwyr Undebau Llafur yn gallu siarad gyda hwy'n uniongyrchol. Ceir cyfarfodydd ar wahân ar gyfer ysgolion. Mae cynrychiolwyr Undebau Llafur yn chwarae rhan bwysig mewn prosesau penderfynu a newid sefydliadol. Maent yn cyfrannu syniadau a safbwyntiau gwahanol ac yn cefnogi eu haelodau mewn cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar effeithiau unrhyw newidiadau ar y gweithlu. Mae'r holl adolygiadau o bolisïau Adnoddau Dynol yn cael eu gwneud gan ymgynghori'n llawn ag Undebau Llafur.

Yn ogystal ag ymgysylltu rheolaidd â staff ac undebau llafur, rydym yn cynnal arolwg staff blynyddol. Cafodd yr un diwethaf, ym mis Chwefror / Mawrth 2024 707 o ymatebion. Mae hyn yn is nag yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd yr arolwg yn cynnwys llawer o gwestiynau a oedd yn ailadrodd arolygon blaenorol fel y gallwn weld sut rydym yn gwneud dros amser. Cynyddodd bodlonrwydd ar y cyfan ar CBSP fel cyflogwr yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond gostyngodd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o 59% yn 2018, 66% yn 2020, 73% yn 2021, 67% yn 2022 a 49% yn 2024. Datblygwyd adroddiad adborth manwl, bydd grwpiau ffocws staff yn cael eu cynnal i ddeall y canlyniadau yn well ac yna bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i weithredu ar faterion o'r arolwg staff.

# Meysydd i'w gwella

- Cyflawni'r cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella yn ein hadolygiadau gan y rheoleiddwyr.
- Datblygu cyfres fach o ddangosyddion perfformiad defnyddwyr gwasanaethau.
- Datblygu strategaeth ddigidol newydd ar gyfer 2024/28
- Gwneud gwelliannau i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl, gan gynnwys cyfeirio grŵp newydd o bobl i fod yn rhan o'r ymgyngoriadau cyfredol trwy declyn yn FyNghyfrif a datblygu cysylltiadau â sefydliadau i gyrraedd grwpiau gwarchodedig.
- Canolbwyntio'n well ar leisiau ysgolion / pobl ifanc trwy sefydlu cysylltiadau ag ysgolion a gwasanaethau ieuenctid.
- Gwella'r ffordd yr ydym yn darparu adborth i ymatebwyr (ac eraill) yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu.
- Ymateb i'r adolygiad archwilio mewnol o ddefnydd y cyngor o wybodaeth am gwynion.
- Cynnal asesiad risg newid hinsawdd gyda'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.
- Gweithio gyda'r cydwasanaeth rheoleiddio ar Ymgynghoriad ynghylch Eiddo Gwag.
- Gweithio gyda CLlLC / Data Cymru ar ddatblygu a gweithredu'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol
- Datblygu naratif lle a'i gyfleu'n eang.
- Datblygu fforwm staff ar gyfer staff â nodweddion gwarchodedig
- Gwelliannau i reolaeth ariannol tymor canolig a hir, gan adolygu proses y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllidebol a dechrau'r broses o bennu'r gyllideb yn gynharach.
- Gwelliannau i recriwtio gyda recriwtio wedi'i dargedu mewn meysydd allweddol, a phecynnau recriwtio pwrpasol. Rydym yn parhau i weithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddatblygu atebion na fyddant yn ansefydlogi'r farchnad swyddi.
- Adolygiad o'r strategaeth Datgarboneiddio 2030.
- Gwelliannau i'n defnydd o wybodaeth am safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau yn ein proses rheoli perfformiad.
- Gwell rheolaeth ariannol gan gynnwys adolygiad o weithdrefnau a pholisïau ariannol, hyfforddiant ychwanegol i aelodau ac ysgolion, datblygu cynigion ynghylch gostyngiadau i'r gyllideb a gwella cyrhaeddiad yr ymgynghoriad ar y gyllideb.

# Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd wedi cael ei ddatblygu ac rydym wedi ymgynghori arno ac mae'n amlinellu ein chwe amcan cydraddoldeb strategol, a fydd yn siapio sut yr ydym yn cynllunio, yn darparu ac yn cyflwyno ein gwasanaethau i adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau. Rydym yn datblygu Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a fydd yn manylu ar y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb. Adroddir yn rheolaidd ar gynnydd y cynlluniau wrth y Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol, ac mae'r cyfrifoldeb am gyflawni gweithredol yn cael ei ysgwyddo gan bob maes gwasanaeth a thîm. Mae ein Pwyllgor Cabinet ar gyfer Cydraddoldebau'n monitro ac yn craffu ar gyflawni yn erbyn yr amcanion.

## Sut ydym yn adnabod ac yn casglu gwybodaeth berthnasol?

Rydym yn ymrwymedig i gasglu a defnyddio data i adnabod ble mae rhai grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn profi effaith anghymesur neu ble y gallem ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Rydym yn casglu data ar gwsmeriaid a thrigolion trwy ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu ac ar ein cyflogeion trwy ein systemau mewnol ein hunain. Byddwn yn casglu ac yn defnyddio'r data cydraddoldeb canlynol:

- Data proffil cyflogaeth ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig;
- Data defnyddwyr gwasanaethau i ddeall nodweddion defnyddwyr ein gwasanaethau;
- Ymgeiswyr am swyddi ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig.

Cyhoeddir y data hwn yn flynyddol fel rhan o broses adrodd flynyddol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Hefyd, byddwn yn cyhoeddi'r canlynol yn flynyddol:

- Asesiadau llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd;
- Yr adolygiad o gynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- Adroddiad blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg



## Pa mor effeithiol yw trefniadau'r cyngor ar gyfer adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol?

Bob blwyddyn rydym yn ceisio gwella'r Data Monitro Cydraddoldeb sydd gennym ar gyfer cyflogeion, gan adolygu'r broses o gasglu'r data i gynnwys mwy o nodweddion. Rydym yn annog cyflogeion i ddiweddaru gwybodaeth yn rheolaidd trwy gyfathrebu, arfarniadau a dulliau eraill.

## Beth mae ein trefniadau'n ei ddweud wrthym am fynediad cyfartal at gyflogaeth, hyfforddiant a chyflog?

Bob blwyddyn, rydym yn cyflwyno ein hadroddiad 'cydraddoldeb yn y gweithlu' i Bwyllgor y Cabinet ar gyfer Cydraddoldeb. Mae hwn yn dweud wrthym am ystod o bethau gan gynnwys nifer y cyflogeion â nodweddion gwarchodedig lle datganwyd y rheiny. Mae hefyd yn dweud wrthym am gyflog, recriwtio a hyfforddi cyflogeion â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn i gyd yn cael ei roi ynghyd a'i gynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r meysydd i'w datblygu'n cael eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.



Hunanasesiad Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



Hunanasesiad Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr




2023/24



Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council